



Adroddiad ar arolygiad dirybudd o

CEF Y Parc

gan Brif Arolygydd Carchardai EF

6-17 Ionawr 2025



Cynnwys

Cyflwyniad	3
Beth sydd angen ei wella yn CEF Y Parc.....	5
Gwybodaeth am CEF Y Parc	7
Adran 1 Crynodeb o'r prif ganfyddiadau.....	9
Adran 2 Arweinyddiaeth	11
Adran 3 Diogelwch	13
Adran 4 Parch	23
Adran 5 Gweithgareddau pwrpasol	39
Adran 6 Paratoi at ryddhau	48
Adran 7 Cynnydd o ran y pryderon o'r arolygiad diwethaf.....	56
Atodiad I Gwybodaeth am ein harolygiadau a'n hadroddiadau	59
Atodiad II Rhestr Termiau.....	62
Atodiad III Rhagor o adnoddau	65

Cyflwyniad

Er bod yr adroddiad hwn yn amlygu dirywiad difrifol mewn safonau yn y carchar categori C mawr hwn yn Ne Cymru, mae hefyd yn tynnu sylw at rai arwyddion cynnar mwy cadarnhaol o adferiad o dan arweinyddiaeth benderfynol y cyfarwyddwr, a benodwyd ym mis Mehefin 2024.

Am flynyddoedd lawer, roedd y Parc wedi bod yn un o'r carchardai mwyaf llwyddiannus yng Nghymru a Lloegr, gyda phoblogaeth o fwy na 1,600 o ddynion, gyda lefelau uchel o anawsterau iechyd meddwl a dibyniaeth ar gyffuriau neu alcohol. Yn ein harolygiad diwethaf yn 2022, roedd y carchar yn cael sgôr eithaf da yn ein profion ar gyfer 'diogelwch', 'parch' a 'chynllunio ar gyfer adsefydlu a rhyddhau', ac yn dda ar gyfer 'gweithgareddau pwrpasol'.

Roedd y llywodraethwr hynod effeithiol a hirsefydlog, a'i dirprwy uchel ei pharch, ill dau wedi ymddeol ar yr un pryd ag yr oedd y contract i redeg y carchar wedi trosglwyddo i ddarparwr newydd. Nid wnaeth y llywodraethwr newydd aros yn hir ac roedd y tîm arwain yn llai sefydlog nag y bu. Cynyddodd trosiant staff hefyd a dechreuodd y carchar ei chael yn anodd llenwi swyddi gwag.

Yn ogystal, cafodd y Parc ei aflonyddu'n ddifrifol gan fewnlifiad cyffuriau, gyda risg benodol o ganlyniad i ymlediad dronau. Arweiniodd hyn at glwstwr o farwolaethau rhwng mis Chwefror a mis Mai 2024, a achoswyd yn ôl pob tebyg gan opioïdau synthetig. Tua'r un pryd, roedd tri marwolaeth hunanachosedig hefyd. Cafodd y carchar ei siglo gan y trychinebau hyn, a oedd yn effeithio'n fawr ar staff a charcharorion fel ei gilydd.

Yn ddealladwy, roedd llawer o ddiddordeb cyhoeddus yn y sefyllfa yn y Parc, ac roedd llawer o ddiddordeb gwleidyddol yng Nghymru a San Steffan.

Gyda morâl isel ymysg y staff, lefelau uwch o salwch a mwy o staff yn gadael nag yr oedd modd eu recriwtio, roedd effeithiau goruchwyliaeth wael a marchnad gyffuriau ffyniannus yn cyfrannu at lefelau uchel o drais. Dywedodd carcharorion wrthym fod rhwystredigaeth ynghylch diffyg cysondeb yn y drefn ddyddiol, diflastod, cyfnodau hir dan glo a pheidio â chael digon i'w fwyta hefyd yn ffactorau cyfrannol. Dywedodd pum deg saith y cant o garcharorion ei bod yn hawdd cael cyffuriau anghyfreithlon, gydag argaeledd llawer uwch ar y prif adeiniau A a B nag yng ngweddill y carchar. Yn ddigalon, yn ein harolwg, dywedodd 34% o garcharorion ar yr adeiniau hyn eu bod wedi datblygu problem cyffuriau neu alcohol ers iddynt gyrraedd Parc.

Cyrhaeddodd y cyfarwyddwr newydd ym mis Mehefin 2024 ac, ers hynny, aeth ati i ailosod y carchar. Roedd wedi sefydlogi'r tîm arwain, ac wedi gwella'r broses o recriwtio staff, cadw staff a chynnal morâl y swyddogion. Adeg ein harolygiad, ni fu mwy o farwolaethau'n ymwneud â chyffuriau na marwolaethau hunanachosedig ers iddo gyrraedd.

Nid oedd ef a'i dîm yn amau'r heriau yr oeddent yn eu hwynebu. Roedd y carchar wedi dod yn llawer rhy dreisgar; roedd lefelau hunan-niweidio (a oedd yn rhy uchel yn ein harolygiad diwethaf) wedi cynyddu 60%. Er gwaethaf

ymrwymiad trawiadol y tîm diogelwch, a oedd wedi canfod bron i 900 o gyffuriau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, roedd llawer gormod o gyffuriau'n cyrraedd y carchar.

Roedd y drefn wedi dechrau gwella, a gallai carcharorion a oedd yn gweithio ddisgwyl cael eu datgloi am hyd at 10 awr y dydd. Fodd bynnag, roedd methiant i ddyrannu gwaith, hyfforddiant neu addysg yn amserol yn golygu bod llawer o garcharorion parod yn gaeth yn eu celloedd am hyd at 21 awr y dydd yn aros i rywun ddod o hyd i rywbeth iddyn nhw ei wneud.

Yn ein harolygiad diwethaf, roeddem yn canmol yr unedau arbenigol ar gyfer cyn-filwyr a charcharorion ifanc, y rheini sydd ag anawsterau dysgu, ac ar gyfer tadau, a oedd yn darparu gofal a chyfleoedd trawiadol i ddiwallu anghenion carcharorion. Yn siomedig, gwelsom fod yr ansawdd wedi gostwng a, gyda'r boblogaeth wedi'i glastwreiddio, nid oedd y carchar bellach yn gallu darparu'r un math o ofal pwrpasol yr oedd yn ei weinyddu dair blynedd yn ôl, er gwaethaf rhai aelodau staff ymroddedig. Nid oedd uned annibynnol, byw yn rhydd o sylweddau, y carchar yn cynnig unrhyw gyfleoedd ystyrion i garcharorion adfer, ac roedd angen iddi ddatblygu hunaniaeth gryfach o lawer.

Ar ôl iddynt ennill y contract, nid oes amheuaeth bod G4S wedi methu cynnal y safonau uchel yr oedd y Parc yn enwog amdanynt, ond mae'r cwmni bellach wedi rhoi cynlluniau ar waith i unioni'r sefyllfa.

Roedd y tîm staff, a oedd yn arfer bod yn falch o'r lle yr oeddent yn gweithio ynddo, wedi bod drwy ddwy flynedd anodd iawn, ond roedd arwyddion bod pethau'n dechrau newid. Roedd cyfraddau trais wedi dechrau gostwng yn y flwyddyn ddiwethaf ac roedd y weithdrefn wedi dechrau gwella.

Gadawodd yr arolygwyr y carchar gyda rhywfaint o sicrwydd bod y Parc wedi dechrau adfer, bod morâl yn well, a balchder yn dechrau dychwelyd. Yn ymarferol, os yw G4S a'r gwasanaeth carchardai yn gallu cyflymu'r gwaith o osod ffenestri newydd sy'n llai agored i ddronau, a darparu gwell diogelwch wrth y fynedfa, bydd hynny'n helpu i leihau'r cyflenwad o gyffuriau. Os bydd y cyfarwyddwr presennol yn aros yn ei swydd, ac yn derbyn y cymorth sydd ei angen arno gan y darparwr a'r gwasanaeth carchardai, yna gall fod gobaith y gellir dechrau atgyfnerthu a chynnal yr arwyddion cynnar o wella yn y carchar pwysig hwn.

Charlie Taylor

Prif Arolygydd Carchardai EF

Ebrill 2025

Beth sydd angen ei wella yn CEF Y Parc

Yn ystod yr arolygiad hwn, nodwyd 14 o bryderon allweddol, a dylid trin wyth ohonynt fel blaenoriaethau. Pryderon â blaenoriaeth yw'r rhai sydd bwysicaf o ran gwella canlyniadau i garcharorion. Mae angen i arweinwyr a rheolwyr roi sylw ar unwaith iddynt.

Dylai arweinwyr sicrhau bod yr holl bryderon a nodir yma yn cael sylw a bod cynnydd yn cael ei olrhain drwy gynllun sy'n nodi sut a phryd y bydd y pryderon yn cael eu datrys. Dylid darparu'r cynllun i Arolygiaeth Carchardai EF.

Pryderon â blaenoriaeth

1. **Roedd nifer y digwyddiadau treisgar yn uchel.** Roedd dealltwriaeth yr arweinwyr o'r achosion yn gyfyngedig ac nid oedd eu hymateb wedi cael effaith eto.
2. **Roedd argaeledd a'r defnydd o gyffuriau anghyfreithlon yn gyffredin.** Roedd bron i draean o holl ganlyniadau hapbrofion cyffuriau yn gadarnhaol ac, yn ein harolwg, dywedodd dros hanner y carcharorion ei bod yn hawdd cael cyffuriau yn y carchar.
3. **Roedd lefelau'r hunan-niweidio a gofnodwyd yn dal yn uchel, ac nid oedd digon yn cael ei wneud i fynd i'r afael â'r achosion.**
4. **Roedd camau gweithredu gan arweinwyr i ddatrys a lliniaru risgiau a nodwyd i ganlyniadau iechyd wedi bod yn rhy araf.** Roedd prinder manau clinigol addas, yn enwedig ar gyfer deintyddiaeth, ac nid oedd digon o staff yn y carchar i hebrwng carcharorion i'r ysbyty.
5. **Roedd gwasanaethau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau yn brin o adnoddau ac nid oeddent yn diwallu anghenion y boblogaeth.**
6. **Nid oedd digon o garcharorion yn mynychu sesiynau addysg, sgiliau neu waith, yn rhannol oherwydd gwendidau o ran dyraniadau ac anghysondebau yn y drefn, ac nid oedd data ar bresenoldeb yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol ar draws y carchar i ganfod tueddiadau ac i fynd i'r afael â phresenoldeb gwael.**
7. **Nid oedd digon yn cael ei wneud i gefnogi carcharorion i leihau eu risg, neu i wneud cynnydd o ran eu dedfryd.** Nid oedd y cyswllt â'r rheolwyr troseddwyd yn digwydd yn aml, ac nid oedd gwaith allweddol yn cefnogi'r gwaith o reoli troseddwyd.
8. **Roedd bylchau yn y trefniadau diogelu'r cyhoedd.** Roedd oedi o ran cynnal gwiriadau carcharorion newydd, roedd y trefniadau ar gyfer monitro cysylltiedig â throseddau yn annigonol, ac roedd yr oruchwyliaeth cyn rhyddhau'r carcharorion a oedd yn peri'r risg fwyaf yn annigonol.

Pryderon allweddol

9. **Nid oedd ansawdd y sesiynau gwaith allweddol yn ddigon da, ac roedd dyraniad gweithwyr allweddol yn anghyson.**
10. **Nid oedd y bwyd a oedd yn cael ei weini adeg prydau bwyd bob amser yn ddigonol, ac nid oedd siop y carchar yn gwerthu digon o eitemau iach, gan gynnwys ffrwythau a llysiau ffres.**
11. **Nid oedd y broses ymgeisio'n gweithio'n effeithiol, ac nid oedd ffurflenni cwyno ar gael bob amser.**
12. **Roedd mynediad i'r llyfrgell yn dal yn rhy gyfyngedig, yn enwedig i'r rheini nad oeddent yn mynychu dosbarthiadau addysg.**
13. **Roedd rhywfaint o'r addysgu'n wan ac nid oedd yn herio'r holl ddysgwyr nac yn cynllunio ar gyfer eu cynnydd.**
14. **Nid oedd prosesau hunanwerthuso'r ddarpariaeth addysg, sgiliau a gwaith yn fanwl nac yn gynhwysfawr, gan fethu â blaenoriaethu'r meysydd sydd bwysicaf i sicrhau cynnydd.**

Gwybodaeth am CEF Y Parc

Tasg y carchar / sefydliad

Mae CEF Y Parc yn garchar ailsefydlu categori C sy'n dal troseddwy'r ifanc ac oedolion gwrywaidd sydd wedi'u dyfarnu'n euog, a throseddwy'r rhyw sydd wedi'u dyfarnu'n euog ac sydd ar remand. Yn ogystal, mae gan y carchar uned fach ar gyfer plant, ac rydym yn ei harolygu ar wahân.

Llety arferol ardystiedig a chapasiti gweithredol (gweler y Rhestr Termu) fel yr adroddwyd gan y carchar yn ystod yr arolygiad

Carcharorion a ddaliwyd adeg ein hymweliad: 1,700

Capasiti arferol a ardystiwyd ar gyfer y llinell sylfaen: 1,498

Capasiti arferol a ardystiwyd ac sy'n cael ei ddefnyddio: 1,498

Capasiti gweithredol: 1,788

Poblogaeth y carchar

- Derbynnir 2,614 o garcharorion bob blwyddyn.
- Ar gyfartaledd, mae 135 o garcharorion yn cael eu rhyddhau i'r gymuned bob mis.
- Mae 89 o'r carcharorion yn wladolion tramor.
- Mae tua 13.6% o garcharorion o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig.
- Mae 549 o garcharorion yn derbyn cefnogaeth ar gyfer camddefnyddio sylweddau.
- Roedd 597 o garcharorion wedi cael eu hatgyfeirio at y tîm iechyd meddwl yn ystod y tri mis blaenorol (538 cychwynnol, 59 eilaidd).

Statws y carchar (cyhoeddus neu breifat) a darparwyr allweddol

Preifat, G4S

Darparwr iechyd corfforol: Y GIG - Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Darparwr iechyd meddwl: Y GIG - Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Darparwr triniaeth ar gyfer camddefnyddio sylweddau: Y GIG – Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a Dyfodol

Darparwr iechyd deintyddol: Time for Teeth

Darparwr addysg mewn carchardai: Novus Gower

Contractwr hebrwng: GeoAmey

Adran / Grŵp y Carchar

Cymru

Cyfarwyddwr Grŵp y Carchar

Sian Hibbs

Hanes cryno

Wedi'i leoli ym Mhen-y-bont ar Ogwr, De Cymru, CEF Y Parc oedd y carchar cyntaf i gael ei adeiladu yn y DU dan y fenter cyllid preifat, ac fe'i hagorwyd ym mis Tachwedd 1997. Roedd y contract gweithredu i reoli'r carchar yn arfer cael ei ddal gan Bridgend Custodial Services Limited (BCSL), ar ran Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF. Fe wnaeth BCSL is-contractio darpariaeth weithredol y carchar i G4S pan agorodd y carchar. Yn 2022, ar ôl caffael, cafodd G4S

gontract 10 mlynedd i weithredu a chynnal a chadw'r carchar. Mae gan y Parc boblogaeth gymhleth, gan gynnwys oedolion ifanc, carcharorion sydd wedi cael dedfryd o fywyd a'r rheini sydd wedi cyflawni troseddau rhywiol.

Disgrifiad byr o unedau preswyl

A1: uned adfer camddefnyddio sylweddau

A2: uned ymsefydlu / dyddiau cynnar yn y carchar

A3: uned adfer camddefnyddio sylweddau

A4: uned adfer camddefnyddio sylweddau

Uned B: y brif boblogaeth, gydag un uned gymysg ar gyfer oedolion ifanc ac uned i gyn-filwyr

Uned Cynnwys: uned anghenion dysgu ychwanegol a niwroamrywiol

Uned D: carcharorion a gafwyd yn euog o droseddau rhywiol (gan gynnwys remand)

T1: uned byw yn rhydd o sylweddau gyda chymhellant

T2: uned carcharorion tymor hir / dedfrydau oes

T3: uned ailsefydlu

T4: uned deuluol

T5: uned diogelwch uwch

T6: yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd fel dalfa fwy diogel nes bydd uned plant

E1 yn cael ei hadnewyddu

G1: uned y plant

H1: yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd fel uned plant nes bydd uned plant E1

yn cael ei hadnewyddu

Uned X: carcharorion a gafwyd yn euog o droseddau rhywiol (gan gynnwys remand)

E2: Uned ailintegreiddio (arwahanu) Phoenix

Enw'r cyfarwyddwr a dyddiad dechrau ar ei swydd

Will Styles, Mehefin 2024

Newid o ran cyfarwyddwyr ers yr arolygiad diwethaf

Janet Wallsgrove, Gorffennaf 2006 - Awst 2023

Heather Whitehead, Awst 2023 – Mehefin 2024

Cadeirydd y Bwrdd Monitro Annibynnol

Julian Harcourt-Williams

Dyddiad yr arolygiad diwethaf


21–22 Mehefin a 4–8 Gorffennaf 2022

Adran 1 Crynodeb o'r prif ganfyddiadau

Canlyniadau i garcharorion

- 1.1 Rydym yn asesu canlyniadau ar gyfer carcharorion yn erbyn pedwar prawf carchar iach: diogelwch, parch, gweithgareddau pwrpasol a pharatoi ar gyfer rhyddhau (gweler Atodiad I am ragor o wybodaeth am y profion). Rydym hefyd yn cynnwys sylwadau ar arweinyddiaeth yn y carchar (gweler Adran 2).
- 1.2 Yn yr arolygiad hwn o CEF Y Parc, gwelsom fod y canlyniadau i garcharorion fel a ganlyn:
- yn wael o ran diogelwch
 - ddim yn ddigon da o ran parch
 - ddim yn ddigon da ar gyfer gweithgareddau pwrpasol
 - ddim yn ddigon da ar gyfer paratoi carcharorion ar gyfer eu rhyddhau.
- 1.3 Y tro diwethaf i ni arolygu CEF Y Parc oedd yn 2022. Mae Ffigur 1 yn dangos sut mae canlyniadau i garcharorion wedi newid ers yr arolygiad diwethaf.

Ffigur 1: Canlyniadau carchar iach CEF Y Parc yn 2022 a 2025



Cynnydd o ran y prif flaenoriaethau a phryderon o'r arolygiad diwethaf

- 1.4 Yn ein harolygiad diwethaf yn 2022, nodwyd 10 pryder, gyda thri ohonynt yn feysydd o bryder â blaenoriaeth.
- 1.5 Yn yr arolygiad hwn, gwelsom nad oedd y carchar wedi mynd i'r afal â'r tri phryder â blaenoriaeth, ym meysydd diogelwch, gweithgareddau pwrpasol a pharatoi carcharorion ar gyfer eu rhyddhau. Ewch i Adran 7 i weld y rhestr lawn o'r cynnydd yn erbyn y pryderon.

Ymarfer cadarnhaol nodedig

1.6 Rydym yn diffinio ymarfer cadarnhaol nodedig fel:

Tystiolaeth bod ein disgwyliadau'n cael eu bodloni i sicrhau canlyniadau arbennig o dda i garcharorion, a/neu ddulliau arbennig o wreiddiol neu greadigol o ddatrys problemau.

1.7 Canfu'r arolygwyr ddwy enghraifft o ymarfer cadarnhaol nodedig yn ystod yr arolygiad hwn, y gallai carchardai eraill ddysgu ohonynt neu eu hefelychu. Oni nodir yn wahanol, nid yw'r enghreifftiau hyn yn cael eu gwerthuso'n ffurfiol, maent yn giplun o adeg benodol ac efallai na fyddant yn addas ar gyfer sefydliadau eraill. Maent yn dangos rhai o'r ffyrdd y gellid bodloni ein disgwyliadau, ond nid dyma'r unig ffordd o wneud.

Enghreifftiau o ymarfer cadarnhaol nodedig

a)	Gweithiodd y carchar gyda Phrifysgol Caerfaddon i ddarparu technoleg canfod cyffuriau arloesol i fynd i'r afael â mewnlifiad sylweddau anghyfreithlon.	Gweler paragraff 3.31
b)	Roedd 'Parc Tank' yn fenter ragorol i'r rheini a oedd yn agosáu at gael eu rhyddhau ac a oedd â diddordeb mewn dechrau eu busnesau eu hunain. Cafodd carcharorion eu cefnogi i ddatblygu cynllun busnes a chyflwyno eu syniadau i banel, gan arwain at wobrau i fuddsoddi yn eu syniadau ar ôl cael eu rhyddhau.	Gweler paragraff 6.44

Adran 2 Arweinyddiaeth

Mae arweinwyr yn darparu'r cyfarwyddyd, yr anogaeth a'r adnoddau i sicrhau canlyniadau da i garcharorion. (I gael diffiniad o arweinwyr, gweler y Rhestr Termiau)

- 2.1 Mae arweinyddiaeth dda yn helpu i yrru gwelliannau a dylai arwain at well canlyniadau i garcharorion. Mae'r naratif hwn yn seiliedig ar ein hasesiad o ansawdd yr arweinyddiaeth, gyda thystiolaeth o ffynonellau gan gynnwys yr adroddiad hunanasesu, trafodaethau â rhanddeiliaid, ac arsylwadau a wnaed yn ystod yr arolygiad. Nid yw'n arwain at sgôr.
- 2.2 Roedd y cyfnod pontio i'r contract newydd, a ddyfarnwyd i G4S yn 2022 (a gynhaliwyd yn flaenorol gan BCSL ac a is-gontractiwyd i G4S), wedi ansefydlogi'r carchar, ac roedd safonau wedi dirywio'n sylweddol o ganlyniad. Roedd y cyfarwyddwr hirsefydlog a hynod fedrus wedi ymddeol, ac roedd uwch arweinwyr profiadol eraill wedi gadael, yn fuan ar ôl newid y contract. Dim ond am gyfnod byr yr oedd y cyfarwyddwr newydd wedi aros yn ei swydd. Roedd nifer fawr o farwolaethau yn y ddalfa ar ddechrau 2024, gan gynnwys rhai a oedd yn gysylltiedig â defnyddio cyffuriau opioid synthetig, wedi cael effaith sylweddol. Roedd y gymuned leol, y cyfryngau a gwleidyddion wedi bod yn craffu'n fanwl ar arweinwyr carchardai. Roedd morâl ymysg staff wedi dirywio, ac roedd cyfraddau gadael staff ac absenoldeb oherwydd salwch wedi cynyddu.
- 2.3 Roedd cyfarwyddwr newydd a phrofiadol, a ddechreuodd ym mis Mehefin 2024, wedi rhoi cynllun ar waith i fynd i'r afael â'r methiannau sylfaenol yn y carchar ac atal rhagor o farwolaethau. Yr oedd ei adroddiad hunanasesu gonest yn gyson â'n darganfyddiadau yn yr arolygiad hwn, ac mae cynllun gwella dwy flynedd yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.
- 2.4 Yn dilyn ymgyrch recriwtio, roedd gan y carchar bellach ei gwota llawn o swyddogion, ac roedd arweinwyr wedi rhoi cefnogaeth ychwanegol ar waith i gefnogi'r nifer fawr oedd yn ddibrofiad. Roedd tua hanner y swyddogion wedi bod yn eu swyddi am lai na dwy flynedd, ac roedd gan bron i 30% lai na blwyddyn o brofiad. Roedd cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch a chyfraddau gadael staff wedi gostwng yn ddiweddar.
- 2.5 Er gwaethaf ymdrechion sylweddol, a oedd yn cynnwys defnyddio technoleg canfod cyffuriau arloesol gan arweinwyr i atal mewnlifiad cyffuriau, roedd cyffuriau anghyfreithlon ar gael yn helaeth o hyd. Dim ond yn ddiweddar y dechreuwyd gosod ffenestri newydd a fyddai'n cyfyngu ar ddosbarthu cyffuriau trwy ddefnyddio dronau, ac nid oedd cyfleusterau ar gyfer gwell diogelwch wrth y fynedfa ar waith o hyd.
- 2.6 Roedd arweinwyr yn angerddol yn eu rolau ac yn awyddus i gyflawni cynllun y cyfarwyddwr ar gyfer gwella, ond nid oedd gan benaethiaid swyddogaethol cymharol amhrofiadol ddigon o ffocws ar lywodraethu a

goruchwyllo eto. Er enghraifft, nid oedd dealltwriaeth rheolwyr o brosesau, gan gynnwys dyfarniadau a rheoli achosion y rheini sy'n destun asesu, gofal yn y ddalfa a gwaith tîm (ACCT), yn ddigon cadarn eto. Nid oedd data'n cael ei ddefnyddio'n effeithiol o hyd i fesur cynnydd ac i yrru gwelliant.

- 2.7 Er bod cyfraddau trais wedi gostwng yn gyffredinol dros y flwyddyn ddiwethaf, nid oedd arweinwyr wedi mynd i'r afael â'r lefelau uchel o drais a hunan-niweidio, a oedd wedi cynyddu'n sylweddol ers yr arolygiad diwethaf.
- 2.8 Nid oedd yr unedau arbenigol, a gynlluniwyd i ddiwallu anghenion y boblogaeth gymhleth a heriol, mor effeithiol nac mor helaeth o ran adnoddau ag adeg yr arolygiad diwethaf, ond roedd adeiniau'r carchar yn cael eu harwain yn bennaf gan reolwyr gweithredol llawn cymhelliant.
- 2.9 Er bod gweithio mewn partneriaeth a llywodraethu wedi cael ei gryfhau yn dilyn y newid i'r bwrdd iechyd lleol (GIG), nid oedd bylchau mewn gwasanaethau iechyd, gan gynnwys deintyddiaeth, iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau, wedi cael sylw o hyd. Nid oedd arweinwyr wedi ymrwymo eto i ddigon o hebryngwyr ysbyty ac i gynyddu'r gofod clinigol.
- 2.10 Roedd gweithio mewn partneriaeth rhwng arweinwyr carchardai a'r darparwr addysg newydd (Novus Gower) hefyd wedi gwella, ond roedd darpariaeth gweithgareddau pwrpasol yn cael ei gyfyngu gan ddyrannu a phresenoldeb gwael, ac roedd bron i un rhan o bump o'r boblogaeth yn ddi-waith.
- 2.11 Roedd arweinwyr y carchar wedi bod yn araf yn ymateb i rwystredigaeth carcharorion ynghylch ansawdd gwael a swmp y bwyd, a ddarparwyd gan Aramark.
- 2.12 Nid oedd cynllunio strategol, cydlynu a llywodraethu'r gwaith i leihau aildroseddu wedi cael blaenoriaeth, ond roedd y trefniadau cynllunio ymarferol ar gyfer rhyddhau wedi gwella'n sylweddol.
- 2.13 Roedd rheolwyr contractau Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF wedi bod yn gefnogol i arweinwyr y carchar oherwydd heriau diweddar, gan barhau i'w dal i gyfrif. Fodd bynnag, roedd rhai mesurau cytundebol, fel ar gyfer gwaith allweddol (gweler y Rhestr Termau), angen mwy o ffocws ar ansawdd, ac nid dim ond ar swmp y ddarpariaeth, i hyrwyddo cynnydd ystyrlon.

Adran 3 Diogelwch

Mae carcharorion, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed, yn cael eu cadw'n ddiogel.

Dyddiau cynnar yn y carchar

Canlyniadau disgwylidig: Mae carcharorion sy'n trosglwyddo i'r carchar, ac oddi yno, yn ddiogel ac yn cael eu trin yn weddus. Mae carcharorion sy'n cyrraedd yn ddiogel ac yn cael eu trin â pharch. Mae risgiau'n cael eu nodi a rhoddir sylw iddynt yn y dderbynfa. Cefnogir carcharorion ar eu noson gyntaf. Mae'r gweithdrefnau ymsefydlu'n gynhwysfawr.

- 3.1 Ar gyfartaledd, mae'r sefydliad yn derbyn 225 o newydd-ddyfodiaid bob mis, yn bennaf o garchardai cyfagos Abertawe a Chaerdydd, felly roedd y teithiau'n gymharol fyr. Roedd tîm bychan ac ymroddedig o weithwyr achos dyddiau cynnar yn y carchar yn sgrinio pob carcharor cyn cyrraedd ac yn rhannu gwybodaeth am risgiau ac anghenion perthnasol ag adrannau eraill.
- 3.2 Roedd y dderbynfa allanol yn dal yn foel, gan ymdebygu i fae dadlwytho mewn ffatri. Er bod yr ardaloedd mewnol yn lân, roedd yr ystafelloedd cadw, ac eithrio un ar gyfer carcharorion agored i niwed, yn foel, heb unrhyw wybodaeth yn cael ei harddangos. Roedd llawer o garcharorion yn aros yn hir yn y dderbynfa, gyda dim ond 21% o'r ymatebwyr i'n harolwg yn dweud eu bod wedi treulio llai na dwy awr yno.



Ystafell gadw'r dderbynfa

- 3.3 Roedd dwy uned ymsefydlu; un ar gyfer y brif boblogaeth ac un arall ar gyfer carcharorion agored i niwed. Roedd yr unedau'n lân ac, yn gyffredinol, roedd y celloedd yn rhesymol. Ar gyrraedd, roedd y carcharorion yn cael cyflenwad da o hanfodion, gan gynnwys *duvet* a chlustog, offer bwyta a phethau ymolchi, ac roedd ymatebwyr i'n harolwg yn llawer mwy cadarnhaol nag mewn carchardai tebyg ynghylch darpariaeth yr eitemau hyn. Fodd bynnag, dywedodd llawer llai eu bod wedi cael cynnig cawod ar eu noson gyntaf, a dywedodd y rhai y buom yn siarad â nhw nad oeddent wedi cael cynnig un yn y dderbynfa nac yn yr unedau ymsefydlu.



Cell i newydd-ddyfodiaid (ar y chwith) a phecyn hanfodion

- 3.4 Cynhaliwyd cyfweiliadau diogelwch ar gyrraedd yr uned. Fodd bynnag, er bod staff yn wybodus am bwrpas y rhain a'r materion sensitif y gallai fod angen eu codi, cynhaliwyd nhw ar yr adain, felly nid oeddent yn gyfrinachol.
- 3.5 Roedd gweithwyr cymheiriaid ar gael i roi cymorth wrth dderbyn, a drwy gydol dyddiau cyntaf carcharorion yn y carchar.
- 3.6 Dechreuodd sesiwn ymsefydlu wythnos o hyd ar y diwrnod ar ôl cyrraedd ac roedd yn cynnwys sesiwn a oedd yn cael ei chyflwyno gan weithwyr cymheiriaid. Yn ogystal, cafodd newydd-ddyfodiaid gyfle i dreulio amser gydag aelod o'r tîm dyddiau cynnar yn y carchar, gan fynd i'r afael â phryderon unigol. Drwy gydol yr wythnos gyntaf hon, cyfarfu carcharorion â staff o ystod o adrannau, gan gynnwys y gaplaniaeth a'r gwasanaethau camddefnyddio sylweddau. Fodd bynnag, yn ein harolwg, dim ond 45% o'r ymatebwyr a ddywedodd fod y cyfnod ymsefydlu yn cynnwys popeth yr oedd angen iddynt ei wybod am y carchar, a oedd yn llai na mewn carchardai tebyg. Roedd y system ar gyfer goruchwyllo'r broses ymsefydlu yn drafferthus, gyda staff yn gorfod gwirio dwy system gyfrifiadurol a ffeil bapur i gadarnhau a oedd proses ymsefydlu unigolyn wedi'i chwblhau, felly nid oedd hyn yn digwydd yn systematig.

- 3.7 Ar ôl yr ymsefydlu, roedd oedi o ran dyrannu carcharorion i addysg neu waith; adeg yr arolygiad, roedd dros 180 o garcharorion a oedd wedi cwblhau'r broses ymsefydlu yn aros i gael eu dyrannu, a oedd yn golygu oedi cyn iddynt setlo i drefn arferol y carchar (gweler hefyd baragraff 5.47).

Annog ymddygiad cadarnhaol

Canlyniadau disgwylidig: Mae carcharorion yn byw mewn amgylchedd diogel, trefnus ac ysgogol, lle mae eu hymddygiad cadarnhaol yn cael ei hyrwyddo a'i wobrwyo. Ymdrinnir ag ymddygiad annerbyniol mewn modd gwrthrychol, teg, cymesur a chyson.

Annog ymddygiad cadarnhaol

- 3.8 Yn ein harolwg, dywedodd 54% o'r ymatebwyr eu bod wedi teimlo'n anniogel ar ryw adeg yn ystod eu cyfnod yn y carchar, a oedd yn waeth nag mewn carchardai tebyg, a dywedodd yn agos at chwarter yr ymatebwyr eu bod yn teimlo'n anniogel ar hyn o bryd. Yn ogystal, dywedodd 41% eu bod wedi cael eu bwlio neu eu herlid gan garcharorion eraill, a 44% gan staff, a oedd ill dau yn waeth nag mewn carchardai eraill.
- 3.9 Yn gyffredinol, roedd nifer y digwyddiadau treisgar wedi cynyddu 60% ers yr arolygiad diwethaf ac roedd yn dal yn uwch nag mewn carchardai tebyg. Cafwyd cyfanswm o 722 o ymosodiadau yn ystod y 12 mis blaenorol, ac ystyriwyd 110 ohonynt yn rhai difrifol. Yn galonogol, gwelwyd gostyngiad yn y cyfraddau cyffredinol dros y flwyddyn ddiwethaf, ond gwelwyd cynnydd hefyd mewn digwyddiadau yn ystod y tri mis diwethaf.
- 3.10 Dywedodd carcharorion wrthym fod diffyg cysondeb yn y drefn ddyddiol, diflastod oherwydd diffyg gwaith, cyfnodau hir yn eu celloedd (gweler yr adran ar amser allan o'r gell), argaeledd eang cyffuriau (gweler yr adran ar ddiogelwch) a pheidio â chael digon i'w fwyta (gweler paragraff 4.9) i gyd yn cyfrannu at y lefel uchel o drais.
- 3.11 Roedd y rhan fwyaf o'r tîm diogelwch yn newydd i'w rôl, a dim ond yn ddiweddar y penodwyd dadansoddwr data llawn amser. Roedd goruchwyllo diogelwch yn wan ac roedd dealltwriaeth arweinwyr o'r hyn sy'n achosi trais yn gyfyngedig ac nid oeddent yn llywio camau gweithredu a allai wella canlyniadau. Ar ben hynny, nid oedd llawer o staff o bob rhan o'r carchar yn bresennol mewn cyfarfodydd i ystyried diogelwch carcharorion, a oedd yn cyfyngu ar gyfleoedd i drafod a rhannu gwybodaeth.
- 3.12 Ar gyfer pob digwyddiad treisgar, gwnaeth y tîm diogelwch atgyfeiriadau prydlon a chynhwysfawr fel rhan o'r broses herio, cymorth a chynllun ymyrryd (gweler y Rhestr Termiau). Fodd bynnag, roedd cynlluniau dilynol i gefnogi a herio ymddygiad gwael yn aneffeithiol. Er enghraifft, nid oedd y rhai a archwiliwyd gennym bob amser yn cynnwys targedau penodol neu ystyrllon i'r carcharor eu cyflawni, ac nid

oedd pob un yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Nid oedd y rhan fwyaf o'r carcharorion a'r staff y buom yn siarad â nhw yn ymwybodol o'r cynlluniau na'u pwrpas. Ar ben hynny, nid oedd y rhan fwyaf o'r staff ar yr unedau yn gwybod sut y gallent gefnogi'r carcharorion hyn, ac roedd llawer yn credu nad eu cyfrifoldeb nhw oedd hyn, ond cyfrifoldeb y tîm diogelwch.

- 3.13 Roedd y cymhellion i annog ymddygiad cadarnhaol yn rhy gyfyngedig. Yn gyffredinol, nid oedd yr unedau arbenigol, fel yr uned i gyn-filwyr a'r uned i bobl ifanc, ac uned Cynnwys ar gyfer y rheini sydd ag anghenion niwroamrywiol (gweler paragraff 4.30 hefyd), mor effeithiol o ran ysgogi ymddygiad da a darparu cymorth i unigolion ag adeg yr arolygiad diwethaf. Ar ben hynny, roedd ansawdd gwael gwaith allweddol (gweler paragraff 4.3 a'r Rhestr Termâu), oedi o ran dyfarniadau (gweler paragraff 3.15) a chofnodion cyfyngedig am ymddygiad carcharorion a gofnodwyd ar y system electronig yn tanseilio rheoli ymddygiad yn effeithiol. Yn ein harolwg, dim ond 14% o'r ymatebwyr a ddywedodd fod cyfleoedd i gymell pobl i ymddwyn yn dda, a dim ond 10% ddywedodd fod ymddygiad da yn cael ei wobrwyo'n deg.

Dyfarniadau

- 3.14 Roedd y broses ddyfarnu mewn anhrefn. Yn ystod y 12 mis diwethaf, cafwyd 5,315 o ddyfarniadau, a oedd yn uchel, gan gynyddu'n sylweddol ers yr arolygiad diwethaf. Roedd llawer o'r rhain ar gyfer meddiant o eitemau heb eu hawdurdodi, fel cyffuriau neu alcohol.
- 3.15 Nid oedd tua 24% o'r gwrandawiadau wedi cael eu cynnal oherwydd nad oeddent wedi cael eu cwblhau mewn pryd – roedd tua 280 wedi cael eu gohirio, ac roedd 73 heb gael eu cwblhau gyda'r heddlu, gyda rhai yn dyddio o ddwy flynedd yn ôl – a oedd i gyd yn tanseilio hygyrddedd ac effeithiolrwydd y broses ddisgyblu. Roedd y 25 dyfarniad a gynhaliwyd bob dydd ar hyn o bryd yn ormod, ac yn cael effaith negyddol ar ansawdd yr ymholiadau.
- 3.16 Roedd sicrwydd ansawdd ar gyfer gwrandawiadau dyfarnu a goruchwyliaeth yn aneffeithiol. Roedd y cyfarfodydd yn cael eu mynychu'n wael, a phrin oedd y data a ddarparwyd. Nid oedd gwendidau yn cael eu nodi i yrru gwelliannau.

Defnyddio grym

- 3.17 Roedd y defnydd o rym wedi gostwng ers yr arolygiad blaenorol ac roedd yn parhau i ostwng. Yn ystod y 12 mis blaenorol, cofnodwyd 809 o ddigwyddiadau, a oedd yn is o gymharu â charchardai tebyg.
- 3.18 Roedd y defnydd a gofnodwyd o lety heb ei ddodrefnu yn isel, gyda dim ond dau ddigwyddiad yn ystod y 12 mis diwethaf, ac nid oedd swyddogion yn cario chwistrell PAVA (gweler y Rhestr Termâu) neu fatonau.
- 3.19 Er gwaethaf y gostyngiad hwn, roedd llywodraethu'n wan. Dim ond 54% o ddigwyddiadau a gofnodwyd ar ddeunydd camerâu oedd yn

cael eu gwisgo ar y corff, ac roedd dros 200 o ddatganiadau staff, yn dilyn digwyddiadau, ar goll. Roedd ansawdd y cofnodion ysgrifenedig a adolygwyd gennym yn amrywiol. Roedd gormod ohonynt yn brin o fanylion ac yn methu â rhoi adroddiad clir yn egluro pam y bu angen defnyddio grym. Yn yr un modd, roedd gwybodaeth a oedd yn cofnodi unrhyw ymdrechion i dawelu sefyllfaoedd hefyd yn ddiffygiol mewn gormod o achosion.

- 3.20 Yn y sampl o ddelweddau o gamerâu sy'n cael eu gwisgo ar y corff a adolygwyd gennym, gwelsom fod grym yn cael ei ddefnyddio'n gymesur, ond efallai y collwyd cyfleoedd i dawelu sefyllfaoedd. Roedd cyfarfodydd misol i drafod digwyddiadau o rym a nodi cyfleoedd ar gyfer dysgu yn rhy gyfyngedig, ac nid oeddent yn monitro tueddiadau neu anghymesuredd yn ddigonol (gweler hefyd baragraff 4.25).
- 3.21 Fodd bynnag, roedd arweinwyr yn craffu ar ddigwyddiadau o fewn 24 awr, os oedd deunydd ar gael, a chymerwyd camau gweithredu cadarn gydag aelodau unigol o staff pan oedd angen.

Arwahanu

- 3.22 Roedd cyfanswm o 420 o garcharorion wedi cael eu rhoi yn yr uned arwahanu yn ystod y 12 mis diwethaf, a oedd yn debyg i'r nifer yn yr arolygiad diwethaf. Trais, cynnydd mewn pryderon ynghylch ymddygiad a chyfrannu at ddigwyddiadau aflonyddgar oedd y rhesymau mwyaf cyffredin dros arwahanu. Hyd cyfartalog yr arosiadau oedd 17 diwrnod ac roedd y gwaith o gynllunio ailintegreiddio yn wan.
- 3.23 Roedd yr uned yn lân ac yn daclus, ac yn gyffredinol, roedd y celloedd mewn cyflwr eithaf da. Roedd gan arweinwyr gynlluniau i osod ffonau yn y celloedd.



Cell arwahanu nodweddiadol (ar y chwith), yr uned arwahanu

- 3.24 Roedd diwylliant cyffredinol yr uned yn gadarnhaol; dim ond un swyddog oedd ei angen ar y rhan fwyaf o garcharorion i ddatgloi drysau, gan optimeiddio ansawdd y cyswllt. Roedd y carcharorion y buom yn siarad â nhw yn gadarnhaol am staff yn yr uned, ac roedd y staff yn adnabod y carcharorion yn eu gofal yn dda.


- 3.25 Roedd y drefn ddyddiol ar gyfer carcharorion yn rhy gyfyngedig. Dim ond un awr allan o'u cell yr oeddent yn ei gael bob dydd, gyda hanner awr ar yr iard ymarfer a hanner awr i ddefnyddio'r ffôn a'r gawod, yn ogystal â chasglu eu pryddau bwyd.
- 3.26 Yn ogystal â'r carcharorion a gafodd eu harwahanu, dros y flwyddyn ddiwethaf, roedd 276 o garcharorion wedi cael eu harwahanu oddi wrth y prif unedau preswyl, hyd nes y cafwyd dyfarniad. Roedd y carcharorion hyn yn cael eu hynysu heb fesurau diogelu priodol, fel asesiad diogelwch cyn eu harwahanu neu ymweliadau statudol dyddiol gan staff.
- 3.27 Roedd lefelau presenoldeb mewn cyfarfodydd goruchwyllo ar gyfer arwahanu yn isel, a dim ond data cyfyngedig a gafodd ei ystyried.

Diogelwch

Canlyniadau disgwylidig: Mae diogelwch a threfn dda yn cael eu cynnal drwy roi sylw i faterion ffisegol a gweithdrefnol, gan gynnwys gwybodaeth diogelwch effeithiol a pherthynas gadarnhaol rhwng staff a charcharorion. Mae carcharorion yn cael eu diogelu rhag dod i gysylltiad â defnyddio sylweddau ac mae mesurau effeithiol ar waith i leihau'r cyflenwad cyffuriau.

- 3.28 Ers ein harolygiad diwethaf, bu saith marwolaeth annaturiol, a chadarnhawyd bod tri ohonynt yn gysylltiedig â chyffuriau opioid synthetig.
- 3.29 Roedd cyffuriau anghyfreithlon ar gael yn helaeth ac roedd cyfran y carcharorion a oedd yn cael canlyniad positif am ddefnyddio cyffuriau yn uchel, sef 30.7%. Yn ein harolwg, dywedodd 57% a 41% o'r ymatebwyr, yn y drefn honno, ei bod yn hawdd cael cyffuriau anghyfreithlon ac alcohol yn y carchar.
- 3.30 Roedd llawer mwy o gyffuriau ar gael ar y prif unedau A a B nag mewn mannau eraill yn y carchar. Yn ein harolwg, dywedodd mwy o ymatebwyr ar yr unedau hyn nag mewn mannau eraill ei bod yn hawdd cael cyffuriau anghyfreithlon (70% o'i gymharu â 47%), a'u bod wedi datblygu problem cyffuriau neu alcohol ers bod yn y carchar (34% o'i gymharu â 10%).
- 3.31 Nid oedd arferion diogelwch uwch wrth y fynedfa i aelodau staff, a oedd yn fwll yn niogelwch ffisegol y carchar. Er bod y gwaith o osod ffenestri newydd mewn celloedd i gyfyngu ar fewnlifiad cyffuriau gan ddefnyddio dronau wedi dechrau'n ddiweddar, roedd hyn yn cymryd gormod o amser i'w gwblhau. Fodd bynnag, roedd rhywfaint o dechnoleg canfod cyffuriau arloesol yn cael ei defnyddio'n dda. Roedd synwryddion sylweddau llaw effeithiol, a ddatblygwyd a'u gwerthuso gan Brifysgol Caerfaddon yn fenter ragorol. Mae'r synwryddion yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am gynhwysion y cyffuriau a ganfuwyd yn y carchar. Ar ben hynny, roedd dyfais symudol yn cael ei defnyddio ar garcharorion, staff ac ymwelwyr i ganfod eitemau cudd ar unigolion. Roedd arweinwyr wedi cymryd rhai camau eraill i leihau'r cyflenwad o

gyffuriau i'r carchar, fel cynyddu adnoddau y tîm diogelwch, ond nid oedd digon yn cael ei wneud i fynd i'r afael â'r galw sylweddol am sylweddau anghyfreithlon (gweler hefyd yr adran ar gymorth a thriniaeth ar gyfer carcharorion sy'n gaeth i sylweddau a'r rheini sy'n camddefnyddio sylweddau).



Synhwyrdd eitemau cudd

- 3.32 Cyflwynwyd llawer iawn o gudd-wybodaeth, gan ddarparu darlun clir o'r bygythiadau i ddiogelwch, gan gynnwys gweithgareddau troseddol cyfundrefnol, trais, camddefnyddio cyffuriau a llygredigaeth staff. Roedd adroddiadau cudd-wybodaeth yn cael eu rheoli'n dda a chymerwyd camau ar unwaith pan oedd angen. Yn ystod y flwyddyn flaenorol, roedd 894 o ddigwyddiadau o gyffuriau yn cael eu darganfod, yr uchaf o'r holl garchardai tebyg. Fodd bynnag, roedd ôl-groniad o chwiliadau a phrofion cyffuriau ar sail cudd-wybodaeth ar gyfer y rhai y bernir eu bod yn flaenoriaeth is.
- 3.33 Roedd llygredigaeth staff yn cael ei reoli'n gadarn, ac roedd tri chyn aelod o staff wedi cael dedfrydau o garchar. Roedd arweinwyr hefyd wedi cyflwyno profion cyffuriau ar hap i staff, nad ydym wedi'u gweld mewn carchardai eraill.

Diogelu

Canlyniadau disgwylidig: Mae'r carchar yn darparu amgylchedd diogel sy'n lleihau'r risg o hunan-niweidio a hunanladdiad. Mae carcharorion sydd mewn perygl o hunan-niweidio neu hunanladdiad yn cael eu nodi ac yn cael gofal a chymorth priodol. Mae pob oedolyn agored i niwed yn cael ei nodi, ei amddiffyn rhag niwed ac esgeulustod, ac yn cael gofal a chymorth effeithiol.

Atal hunanladdiad a hunan-niweidio

- 3.34 Roedd nifer y marwolaethau yn y carchar yn uchel. Ers yr arolygiad diwethaf, bu pedwar marwolaeth hunanachosedig, wyth marwolaeth sydd naill ai'n cael eu hamau neu sydd wedi cael eu cadarnhau o fod yn gysylltiedig â chamddefnyddio cyffuriau, a dau arall a oedd yn aros i gael eu dosbarthu adeg yr arolygiad. Roedd cyfran fawr o'r rhain (tair marwolaeth hunanachosedig a phum marwolaeth annaturiol yn ymwneud â sylweddau anghyfreithlon) wedi digwydd rhwng mis Chwefror a mis Mai 2024, a oedd wedi cael effaith sylweddol ar draws y carchar, gan gynnwys ar garcharorion, staff ac arweinwyr. Dywedodd aelod o staff ei fod yn "amser trawmatig iawn i bawb". Effeithiwyd ar y gymuned ehangach hefyd, gyda phrotestiadau'n ymwneud â'r marwolaethau hyn yn cael eu cynnal y tu allan i'r carchar.
- 3.35 Cynhaliwyd adolygiadau dysgu cynnar ar gyfer yr holl farwolaethau o ganlyniad i achosion annaturiol, ac roedd y rhain o ansawdd da, gan alluogi arweinwyr i weithredu ar unwaith pan oedd angen. Fodd bynnag, er ei bod yn amlwg bod arweinwyr yn ymateb i'r adolygiadau hyn ac i argymhellion yr Ombwdsmon Carchardai a Phrawf, nid oedd systemau ar waith i adolygu argymhellion i sicrhau bod camau gweithredu'n cael eu gwreiddio. Er enghraifft, tynnwyd sylw at y diffyg a welsom o ran rheoli achosion ACCT mewn adolygiadau dysgu ond, er gwaethaf hyfforddiant staff, roedd y materion hyn yn dal yn gyffredin. Hefyd, ni ymchwiliwyd i weithredoedd o hunan-niweidio difrifol fel mater o drefn at ddiben dysgu pellach.
- 3.36 Roedd lefel uchel o angen ymysg poblogaeth carchar Y Parc; yn ein harolwg, dywedodd 54% o'r ymatebwyr eu bod yn teimlo'n isel, a dywedodd 25% eu bod yn ystyried hunanladdiad ar gyrraedd y carchar, gyda'r ddau ffigur yn uwch nag mewn carchardai tebyg. Ar ben hynny, dywedodd dwy ran o dair o'r ymatebwyr fod ganddynt gyflwr iechyd meddwl.
- 3.37 Roedd y gyfradd hunan-niweidio a gofnodwyd wedi cynyddu 58% ers yr arolygiad diwethaf. Roedd 1,962 o ddigwyddiadau wedi bod yn ystod y 12 mis diwethaf, a oedd yn uwch nag mewn carchardai tebyg, er bod y duedd hon ar i lawr yn gyffredinol ers mis Ebrill 2024.
- 3.38 Roedd carcharorion y buom yn siarad â nhw, a data'r carchar ei hun, yn dangos mai materion yn ymwneud ag iechyd meddwl,

meddyginiaeth, arferion dyddiol cyfyngedig a rhwystredigaethau cyffredinol oedd yn achosi llawer o'r hunan-niweidio.

- 3.39 Roedd yr uned benodedig ar gyfer profiadau dalfa mwy diogel yn cael ei defnyddio'n dda i gefnogi carcharorion mewn argyfwng difrifol. Gwelsom rywfaint o ryngweithio da rhwng carcharorion a staff, ac roedd y rhan fwyaf o'r carcharorion y buom yn siarad â nhw yn gadarnhaol am y gofal roeddent yn ei gael. Fodd bynnag, roedd trefn ddyddiol yr uned yn rhy gyfyngedig adeg yr arolygiad, gyda carcharorion yn treulio dim ond ychydig oriau allan o'u celloedd bob dydd, yn rhannol oherwydd ei fod mewn lleoliad dros dro. Roedd gan arweinwyr gynlluniau i wella hyn.
- 3.40 Roedd cynlluniau cadarnhaol eraill ar waith i gefnogi carcharorion mewn argyfwng, gan gynnwys swyddogion profiadau dalfa mwy diogel a oedd yn cynnig cymorth pwrpasol i nifer fach o garcharorion. Roedd cŵn therapi yn cael eu defnyddio i gefnogi unigolion ac roeddent yn mynychu unedau preswyl yn aml.



Cŵn therapi

- 3.41 Roedd arweinwyr wedi cymryd rhai camau i wella ansawdd cyffredinol rheoli achosion y rheini sy'n destun asesu, gofal yn y ddalfa a gwaith tîm (ACCT) ar gyfer carcharorion sydd mewn perygl o hunanladdiad neu hunan-niweidio, gan gynnwys darparu hyfforddiant i dros 400 o staff yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Er bod asesiadau a chofnodion dyddiol gan staff yn rhesymol ar y cyfan yn y dogfennau a adolygwyd gennym, roedd y cynllunio gofal yn wael, nid oedd adolygiadau bob amser yn amlldisgyblaethol ac nid oedd cysondeb o ran rheoli achosion. Roedd y carcharorion roedden ni wedi siarad â nhw a oedd ar ACCT wedi rhoi ymatebion amrywiol am y gofal roedden nhw'n ei gael; ac er bod y rheini ar unedau carcharorion arbenigol neu agored i niwed yn gadarnhaol, roedd y rheini ar y prif unedau preswyl yn llai cadarnhaol.
- 3.42 Roedd arweinwyr wedi gwella'r data a gasglwyd, ac roeddent bellach yn cynnwys y dulliau a ddefnyddiwyd a'r rhesymau dros hunan-

niweidio. Er bod y defnydd o'r wybodaeth hon mewn cyfarfodydd misol yn well hefyd, nid oedd yn gyrru gwelliannau eto.

Diogelu oedolion sydd mewn perygl (gweler y Rhestr Termiau)

- 3.43 Roedd y prosesau diogelu yn gadarn, ac yn llawer gwell na'r hyn rydym fel arfer yn ei weld. Roedd rheolwr ymroddedig a gwybodus, a oedd wedi meithrin cysylltiadau da yn y carchar a gyda'r awdurdod lleol.
- 3.44 Roedd system atgyfeirio fewnol dda, a chafwyd 32 o atgyfeiriadau i'r gymuned yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Cynhaliwyd cyfarfod diogelu misol a fynychwyd gan nifer fawr o bobl, gan gynnwys asiantaethau allanol. Roedd y cyfarfod yn cynnwys trosolwg da o atgyfeiriadau, ac yn monitro unrhyw garcharorion a allai achosi pryder.

Adran 4 Parch

Mae carcharorion yn cael eu trin mewn modd sy'n parchu eu hurddas.

Perthynas rhwng staff a charcharorion

Canlyniadau disgwylidig: Mae carcharorion yn cael eu trin â pharch gan staff drwy gydol eu cyfnod yn y ddalfa, ac fe'u hanogir i gymryd cyfrifoldeb dros eu gweithredoedd a'u penderfyniadau eu hunain.

- 4.1 Yn ein harolwg, dywedodd 69% o'r ymatebwyr fod staff yn eu trin â pharch, a dywedodd 67% fod aelod o staff y gallant droi ato petai ganddynt broblem, ac roedd hynny yn debyg i garchardai tebyg. Yn ystod yr arolygiad, gwelsom ryngweithio cwrtais rhwng staff a charcharorion, a rhai enghreifftiau o berthnasoedd gwaith gofalgarg. Roedd rhai swyddogion yn dangos yn glir eu bod yn gwybod am y carcharorion ar eu hunedau a'r ffordd orau o'u cefnogi.
- 4.2 Er gwaethaf hyn, dywedodd carcharorion wrthym ei bod yn rhwystredig nad oedd eu ceisiadau sylfaenol yn cael sylw ar bob achlysur oherwydd diffyg profiad yr aelodau staff. Yn ein harolwg, adroddodd y rheini o grwpiau ethnig ar wahân i wyn, carcharorion Mwslimaidd a'r rhai o dan 25 oed ganfyddiadau mwy negyddol o ran y ffordd roeddent yn cael eu trin gan staff (darllenwch yr adran ar driniaeth deg).
- 4.3 Yn ogystal, canfu ein harolwg mai dim ond 58% o'r ymatebwyr oedd yn gwybod pwy oedd eu gweithiwr allweddol, o gymharu â 74% mewn carchardai tebyg. Roedd y carchar yn darparu'r nifer cytundebol o sesiynau gwaith allweddol, ond roedd y cofnodion yn awgrymu bod ansawdd y sesiynau'n anghyson a bod y cysylltiadau â'r gwaith o reoli troseddwy yn ansylweddol (gweler hefyd baragraff 6.14). Roedd rhai sesiynau'n rhy fyr ac nid oeddent yn cynnwys unrhyw ymgysylltiad â'r carcharor. Codwyd yr un materion dro ar ôl tro, er na roddwyd sylw iddynt.
- 4.4 Roedd rhai enghreifftiau cadarnhaol o weithio gyda chymheiriaid; roedd y mentoriaid dyddiau cynnar yn y carchar ar yr uned ymsefydlu yn gefnogol, ac roedd mentoriaid addysg wedi darparu cymorth i ddysgwyr ac wedi'u hyfforddi'n briodol (gweler paragraffau 5.28 a 5.30). Roedd arweinwyr yn datblygu mentrau eraill sy'n cael eu harwain gan gymheiriaid o amgylch y carchar, gan gynnwys cymorth cymunedol gan gymheiriaid ar yr adeiniau.

Bywyd bob dydd

Canlyniadau disgwylidig: Mae carcharorion yn byw mewn amgylchedd glân a gweddus, ac yn ymwybodol o reolau ac arferion y carchar. Darperir gwasanaethau sylfaenol hanfodol iddynt, ymgynghorir â hwy'n rheolaidd a gallant wneud cais am wasanaethau a chymorth ychwanegol. Mae'r prosesau cwyno a gwneud iawn yn effeithlon ac yn deg.

Amodau byw

- 4.5 Yn gyffredinol, roedd yr amodau byw yn rhesymol ac roedd y rhan fwyaf o'r adeiniau'n lân. Roedd rhai o'r ardaloedd allanol wedi'u cynnal a'u cadw'n dda ac roedd gardd fawr yng nghanol y carchar.
- 4.6 Er bod rhaglen gosod ffenestri newydd wedi dechrau'n ddiweddar (gweler paragraff 3.313.31), roedd dyluniad yr hen ffenestri'n ei gwneud hi'n hawdd i garcharorion daflu sbwriel i'r iardiau ymarfer a'r tir. Er bod rhai carcharorion yn gweithio fel casglwyr sbwriel, roedd swmp y sbwriel yn yr ardaloedd hyn yn dal yn annerbyniol.



Iard ymarfer corff

- 4.7 Roedd y celloedd mewn cyflwr eithaf da ac roedd gan y rhan fwyaf o garcharorion yr eitemau sylfaenol yr oedd eu hangen arnynt. Fodd bynnag, yn ein harolwg, dywedodd llai o ymatebwyr ar unedau A a B nag mewn rhannau eraill o'r carchar y gallent gael gafael ar ddeunyddiau glanhau celloedd a dillad gwely glân bob wythnos. Yn ddiweddar, roedd arweinwyr wedi cwblhau archwiliad o'r holl gelloedd ac roeddent yn ailosod eitemau coll.

- 4.8 Roedd y llety gorau ar yr unedau mwy newydd, a oedd yn cynnwys cawodydd yn y celloedd. Roedd y rheini ar unedau D a X yn llawer mwy cadarnhaol nag ar unedau eraill am lanweithdra eu gofod byw, gydag 86% yn dweud bod eu cawodydd yn lân iawn neu'n eithaf glân, o'i gymharu â 56% yng ngweddill y carchar. Nid oedd gan y cawodydd ar yr unedau mwy (A, B a D) breifatrwydd ac, yn ein harolwg, dim ond 35% o'r ymatebwyr ar unedau A a B a ddywedodd fod eu cawodydd yn lân iawn neu'n eithaf glân.



Cyfleusterau cawod uned D

Gwasanaethau preswyl

- 4.9 Dim ond 25% o'r ymatebwyr i'n harolwg a ddywedodd fod y bwyd a ddarparwyd yn dda iawn neu'n eithaf da, a dim ond 23% ddywedodd eu bod yn cael digon i'w fwyta yn ystod prydau bwyd. Dywedodd llawer o garcharorion wrthym fod ansawdd a swmp y bwyd yn annerbyniol; roeddent yn dweud nad oedd y fwydlen yn darparu digon o ddewisiadau iach ac roeddent yn cwyno am ddiffyg ffrwythau a llysiau. Eglurodd arweinwyr fod y brif gegin yn rhy fach i arlwyyo ar gyfer y boblogaeth, a bod prinder gofod storio yn cyfyngu ar opsiynau o ran ffrwythau a llysiau ffres.
- 4.10 Gwelsom ddiffyg goruchwyliaeth gan swyddogion adeg prydau bwyd, a oedd yn arwain at anghysondebau yn y dognau o fwyd a oedd yn cael eu gweini. Yn ogystal, gwelsom rai carcharorion yn defnyddio'u dwylo (gan wisgo menig) i weini bwyd, yn hytrach na theclynnau gweini bwyd, gan gynnwys opsiynau halal a figan, a oedd yn achosi croes-halogi ac a oedd yn amhriodol. Roedd rhai prydau'n ymddangos yn annigonol, a dywedodd carcharorion wrthym eu bod yn aml yn llwglyd.



Pryd bwyd gyda'r nos yn ystod yr arolygiad

- 4.11 Ar gyrraedd, roedd carcharorion yn cael cynnig blaendaliad o £30 i wneud pryniant cychwynnol o amrywiaeth fach o gynnyrch, gan dderbyn yr eitemau ar y diwrnod canlynol. Roedd hon yn fenter dda gan fod oedi weithiau o ran trosglwyddo cyllid carcharorion o'u carchar blaenorol, a gallai'r blaendaliad leihau eu tebygolrwydd o fynd i ddyled. Fodd bynnag, yn aml, methodd y cynllun hwn â chael yr effaith a fwriadwyd oherwydd oedi wrth ddyrannu gwaith i newydd-ddyfodiaid (gweler paragraffau 3.7 a 5.47), sy'n golygu nad oedd ganddynt ddigon o arian i dalu'r benthychiad yn ôl.
- 4.12 Cwynodd carcharorion nad oedd ffrwythau a llysiau ffres, a bwyd iach ar gael i'w brynu o siop y carchar. Dim ond 31% o'r rheini a ymatebodd i'n harolwg a ddywedodd fod y siop wedi darparu'r eitemau yr oedd eu hangen arnynt, a oedd yn llawer is nag mewn carchardai tebyg (62%). Yn ogystal, dywedodd carcharorion o grwpiau lleiafrifoedd ethnig wrthym nad oeddent yn gallu prynu'r eitemau yr oedd eu hangen arnynt; er enghraifft, ar gyfer gofal croen (gweler hefyd yr adran ar driniaeth deg). Roedd cyfyngiadau ar nifer yr eitemau penodol y gallai carcharorion eu prynu, a dywedwyd wrthym fod rhai allan o stoc yn rheolaidd.
- 4.13 Dywedodd arweinwyr wrthym fod siop y carchar yn rhy fach ac nad oedd ganddi'r cyfleusterau i storio bwyd ffres.

Ymgynghori â charcharorion, ceisiadau a gwneud iawn

- 4.14 Mynegodd llawer o'r carcharorion y buom yn siarad â nhw ddiffyg hyder yn y prosesau ymgynghori, cwyno a gwneud ceisiadau.

- 4.15 Er bod cyfarfodydd cyngor carcharorion wedi cael eu cynnal bob mis yn ddiweddar, roedd arweinwyr yn cyfyngu ar drafodaethau i dri phwnc ym mhob cyfarfod, a oedd yn tarfu ar barhad ac yn atal camau gweithredu rhag cael eu dilyn. Ar ben hynny, nid oedd pob uned yn cael ei chynrychioli, gan ei gwneud yn anodd i garcharorion olrhain cynnydd ar y materion roeddent yn eu codi.
- 4.16 Dywedodd llawer o'r carcharorion y buom yn siarad â nhw fod ymatebion i gwynion yn aml yn hwyr a/neu ddim yn ddefnyddiol. Dros y 12 mis diwethaf, roedd 3,113 o gwynion wedi cael eu cyflwyno, a oedd yn debyg i'r nifer mewn carchardai tebyg, ond dim ond 374 oedd wedi cael eu cadarnhau. Dywedodd carcharorion wrthym ei bod yn anodd cael gafael ar ffurflenni cwyno, a hyd yn oed pan wnaethant lwyddo i gyflwyno cwyn, bod yr ymatebion yn aml yn methu â mynd i'r afael â'r materion a godwyd.
- 4.17 Yn ystod yr arolygiad, gwelsom rai adeiniau heb ffurflenni cwyno a oedd ar gael yn rhwydd. Ar rai unedau, ceisiodd staff liniaru hyn drwy storio ffurflenni mewn swyddfeydd neu ganiatáu i weithwyr cymheiriaid ddal stoc fach.
- 4.18 Canfu ein hadolygiad o gwynion fod rhai ymatebion wedi bod yn hwyr a bod y gwaith ymchwilio yn annigonol. Fodd bynnag, gwelwyd gwelliannau'n ddiweddar o ran tôn, amseroldeb ac ansawdd yr atebion, a sbardunwyd gan ymdrechion uwch arweinwyr.
- 4.19 Roedd y system cyflwyno ceisiadau mewn anhrefn, ac roedd uwch arweinwyr wedi colli rheolaeth o'r gwaith o'i goruchwyllo. Dim ond 58% o'r rheini a ymatebodd i'n harolwg a ddywedodd y gallent wneud cais yn hawdd, a oedd yn waeth nag mewn carchardai tebyg. Roedd dwy system yn rhedeg yn gyfochrog: proses bapur a system ciosg electronig. Roedd y system ciosg yn fwy dibynadwy, o ran logio ac olrhain ceisiadau, ond roedd llawer o giosgau allan o wasanaeth ac roedd bysellfyrdau gwallus yn ei gwneud yn anodd i deipio ceisiadau.
- 4.20 Dros y 12 mis diwethaf, roedd dros 120,000 o geisiadau wedi cael eu cyflwyno drwy'r ciosgau. Adeg yr arolygiad, roedd 1,300 yn cael eu prosesu, gyda 466 yn hwyr, a oedd yn ffynhonnell allweddol o rwystredigaeth i garcharorion. Roedd ymatebion i geisiadau yn aml yn gwta, yn swta, yn ddiystyriol ac yn ddiwerth. Yn wahanol i'r broses gwyno, nid oedd uwch arweinwyr wedi rhoi digon o oruchwyliaeth na sicrwydd ansawdd ar waith yn y system cyflwyno ceisiadau. Ysgogodd y diffyg sylw hwn lawer o garcharorion i gyflwyno ceisiadau mynych yn y gobaith o'u datrys.
- 4.21 Yn ein harolwg, dim ond 34% o'r ymatebwyr a ddywedodd ei bod yn hawdd cyfathrebu â'u cyfreithiwr neu eu cynrychiolydd cyfreithiol, a oedd yn waeth nag mewn carchardai tebyg. Fodd bynnag, roedd digon o ddarpariaeth i garcharorion gael ymweliadau cyfreithiol, a gynhaliwyd yn breifat, ac roedd cysylltiadau fideo â llysoedd pan oedd eu hangen.
- 4.22 Roedd prosesau i leihau'r risg y byddai llythyrau cyfreithiol yn cael eu hagor mewn camgymeriad yn effeithiol, gyda chofnodion da ar gyfer yr

y chydig achlysuron pan oedd hyn wedi digwydd. Yn ogystal, cadwodd y llyfrgell gyflenwad cyfoes o werslyfrau cyfreithiol ar gyfer carcharorion (gweler hefyd yr adran ar amser allan o'r gell).

Triniaeth deg a chynhwysiant

Canlyniadau disgwylidig: Mae dull clir o hyrwyddo cyfle cyfartal, dileu gwahaniaethu anghyfreithlon a meithrin perthnasoedd da. Mae anghenion unigryw carcharorion sydd â nodweddion gwarchodedig penodol (gweler y Rhestr Termu), neu'r rheini a allai fod mewn perygl o gael eu gwahaniaethu neu o gael triniaeth annheg, yn cael eu cydnabod ac yn cael sylw. Mae carcharorion yn gallu ymarfer eu crefydd. Mae'r gaplaniaeth yn chwarae rhan lawn ym mywyd y carchar ac yn cyfrannu at ofal, cefnogaeth ac adsefydlu cyffredinol carcharorion.

- 4.23 Roedd y gwaith strategol o reoli triniaeth a chynhwysiant teg wedi dirywio ers yr arolygiad diwethaf, er bod rhai gwelliannau wedi bod dros y chwe mis diwethaf, gyda chyfarfodydd wedi'u cynnal a rhywfaint o ymgynghori â charcharorion.
- 4.24 Fodd bynnag, nid oedd llawer o uwch arweinwyr wedi mynychu tri chyfarfod cydraddoldeb diwethaf y cyngor carcharorion, gan arwain at ychydig iawn o gynnydd. Nid oedd llawer o gamau gweithredu o gyfarfodydd blaenorol yn cael sylw dyledus, gan adael carcharorion yn teimlo'n rhwystredig. Gyda dros 1,700 o garcharorion, roedd dibynnu ar ddim ond dau neu dri chynrychiolydd i leisio pryderon cyfunol yn afrealistig. Roedd y diffyg cynrychiolaeth ystyrlon a'r diffyg ymgysylltu ag arweinwyr yn golygu bod y cyfarfodydd yn aneffeithiol ar y cyfan.
- 4.25 Roedd uwch arweinwyr wedi dechrau adolygu data a oedd yn dangos anghymesuredd o ran defnyddio grym, arwahanu a'r system cynllun cymell ar gyfer carcharorion o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig. Er bod y data yn cael ei fonitro, nid oedd unrhyw ddadansoddiad neu gamau pellach wedi cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion hyn.
- 4.26 Gwelsom gefnogaeth un-i-un ardderchog gan y rheolwr cydraddoldeb, yn enwedig ar gyfer carcharorion trawsryweddol a'r rheini o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Yn ogystal, roedd calendr cynhwysfawr i ddathlu gwyliau diwylliannol. Fodd bynnag, roedd y gefnogaeth ehangach i garcharorion â nodweddion gwarchodedig yn gyfyngedig. Roedd y fforymau i fynd i'r afael â'u hanghenion penodol yn anghyson, ac roedd diffyg goruchwyliaeth gan arweinwyr, a dim cynllun i'w cefnogi.
- 4.27 Yn gyffredinol, adroddodd carcharorion o grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn fwy negyddol am eu triniaeth. Er enghraifft, yn ein harolwg, dim ond 32% o'r ymatebwyr o grwpiau ethnig ar wahân i wyn a ddywedodd fod staff yn eu trin â pharch, a dim ond 14% ddywedodd fod y siop yn stocio'r eitemau yr oedd eu hangen arnynt (gweler paragraffau 4.2 a 4.12).

- 4.28 Ni ddywedodd yr un Mwslim a ymatebodd i'n harolwg fod y siop yn darparu'r eitemau angenrheidiol, ac nid oedd yr un ohonynt yn dweud bod ansawdd y bwyd yn dda nac yn eithaf da, gyda'r ddau ffigur yn waeth nag ar gyfer y rheini nad oeddent yn Fwslimiaid, a dim ond 21% a ddywedodd fod y staff yn eu trin â pharch (gweler hefyd baragraff 4.2).
- 4.29 Roedd 89 o garcharorion oedd yn wladolion tramor adeg yr arolygiad. Roedd y gefnogaeth i'r grŵp hwn wedi lleihau. Nid oedd cydlynnydd gwladolion tramor bellach i nodi a chefnogi anghenion unigol ac ni ddefnyddiwyd gwasanaethau cyfieithu proffesiynol. Ymwelodd swyddogion mewnfudo ddwywaith yr wythnos i gynnal cyfweiliadau, ond roedd carcharorion yn ei chael yn anodd codi pryderon oherwydd y system cyflwyno ceisiadau gamweithredol (gweler paragraff 4.19) a'r diffyg cymorthfeydd mewnfudo lle gallent alw heibio i ofyn cwestiynau brys.
- 4.30 Roedd y gefnogaeth i gyn-filwyr a charcharorion iau wedi dirywio. Roedd yr unedau arbenigol a oedd yn arfer darparu cymorth wedi'i dargedu ar gyfer carcharorion iau ddim yn gweithredu mwyach, ac roedd y cymorth cadarnhaol i gyn-filwyr a welwyd yn ystod yr arolygiad diwethaf yn llawer gwaeth. Roedd llawer o gyn-filwyr wedi dewis symud i ffwrdd o garcharorion iau ac, er bod rhywfaint o gymorth ar gael o hyd, nid oedd y dull o gyn-filwyr yn helpu ei gilydd yn y gymuned yn bodoli mwyach.
- 4.31 Yn ein harolwg, dim ond 30% o'r ymatebwyr o dan 25 oed a ddywedodd fod y rhan fwyaf o'r staff yn eu trin â pharch. Yn frawychus, dywedodd 74% eu bod wedi cael eu bwlio neu eu herlid gan staff, a dim ond 41% ohonynt oedd ag aelod o staff y gallent droi ato pe bai ganddynt broblem, gyda'r ddau ffigur yn waeth nag ar gyfer carcharorion hŷn. Nid oedd arweinwyr yn gallu egluro'r pryderon hyn ac nid oedd unrhyw ddull wedi'i deilwra o ganfod neu ddiwallu anghenion penodol carcharorion iau, sef tua un rhan o bump o'r boblogaeth.
- 4.32 Roedd y gefnogaeth i garcharorion ag anghenion niwroamrywiol ar uned Cynnwys wedi dirywio ers yr arolygiad diwethaf. Er bod y dosbarthiadau addysg yno wedi'u cynnal mewn amgylchedd tawel i grŵp bach o garcharorion, ychydig o gymorth pwrpasol oedd ar gael yn gyffredinol. Nid oedd y rhan fwyaf o staff yn yr uned wedi cael eu hyfforddi i weithio gyda charcharorion niwrowahanol ac ni welsom unrhyw gynlluniau wedi'u personoli i fynd i'r afael â'u hanghenion.
- 4.33 Roedd y ddarpariaeth Gymraeg yn parhau i fod yn rhagorol. Roedd gweithiwr cymorth iaith Gymraeg llawn amser yn hyrwyddo'r iaith drwy sesiynau tiwtorial radio ar-lein ac ymgysylltu un-i-un â staff a charcharorion eraill sy'n siarad Cymraeg. Roedd y rhan fwyaf o ddogfennau – gan gynnwys hysbysiadau, testunau crefyddol a dyfarniadau – ar gael yn y Gymraeg. Bu'r carchar hefyd yn cymryd rhan frwd yn nathliadau diwylliannol blynyddol yr Eisteddfod, gan ennill mewn gweithgareddau creadigol fel celf a chrefft.

- 4.34 Yn ystod y 12 mis blaenorol, cyflwynwyd 220 o ffurflenni adrodd am ddigwyddiadau gwahaniaethu. Er bod yr amseroedd ymateb wedi gwella, roedd ansawdd yr ymatebion yn dal yn anghyson. Nid oedd arweinwyr wedi dadansoddi cynnwys y cwynion am wahaniaethu i ganfod patrymau neu faterion sy'n codi dro ar ôl tro y mae angen gweithredu arnynt.

Ffydd a chrefydd

- 4.35 Darparodd y gaplaniaeth le cynnes a chroesawgar ar gyfer myfyrio tawel, gweddïo neu gymorth mewn profedigaeth. Cynrychiolwyd y rhan fwyaf o grefyddau, a defnyddiwyd caplaniaid sesiynol i lenwi bylchau. Fodd bynnag, er bod gan y tîm y nifer angenrheidiol o staff, bron, dywedodd rhai carcharorion wrthym mai anaml iawn y cawsant gyfleoedd i siarad â chaplaniaid a'u bod yn cael trafferth mynd i wasanaethau addoli ar y penwythnos. Yn ein harolwg, dim ond 54% o'r ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn gallu siarad â chaplan yn breifat, a oedd yn llai nag mewn carchardai eraill. Ni welsom unrhyw garcharorion yn defnyddio cyfleusterau'r gaplaniaeth i gael cymorth a chefnogaeth yn ystod yr arolygiad, a oedd yn anarferol.



Y capel

- 4.36 Roedd presenoldeb da mewn sesiynau gweddïo ar ddydd Gwener, gyda thua 60 o garcharorion yn cymryd rhan yn rheolaidd, ond nid oeddent bob amser yn dechrau ar amser. Roedd gwasanaethau Cristnogol dros y penwythnos yn aml yn destun oedi, ac roedd llai o garcharorion yn cael mynychu.
- 4.37 Nid oedd fforymau ffydd wedi bod yn cael eu cynnal, gan adael arweinwyr yn anymwybodol o faterion allweddol, fel mynediad

anghyfartal at wasanaethau Cristnogol ar benwythnosau. Dywedodd y caplaniaid y buom yn siarad â nhw eu bod wedi ymrwymo i ailgychwyn y fforymau hyn a mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n atal carcharorion rhag cael mynediad at wasanaethau addoli ar y penwythnos.

Iechyd, lles a gofal cymdeithasol

Canlyniadau disgwyledig: Mae cleifion yn derbyn gofal gan wasanaethau sy'n asesu ac yn diwallu eu hanghenion iechyd, gofal cymdeithasol a defnyddio sylweddau, ac sy'n hyrwyddo parhad gofal pan gânt eu rhyddhau. Mae safon y ddarpariaeth yn debyg i'r hyn y gallai cleifion ddisgwyl ei gael mewn mannau eraill yn y gymuned.

- 4.38 Cynhaliwyd yr arolygiad o wasanaethau iechyd ar y cyd gan Arolygiaeth Carchardai EF ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (gweler y Rhestr Termiau), a oedd yn arolygu gwasanaethau deintyddol o dan gytundeb memorandwm cyd-ddealltwriaeth rhwng yr asiantaethau.

Strategaeth, llywodraethu clinigol a phartneriaethau

- 4.39 Cafodd gwasanaethau iechyd eu darparu erbyn hyn gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (BIP CTM). Cafodd gwasanaethau meddygon teulu eu his-gontractio i Marnell Medical Services Ltd. Cafodd gwasanaethau deintyddol eu his-gontractio i Time for Teeth, a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau seicogymdeithasol i Dyfodol. Cynhaliwyd dadansoddiad newydd o anghenion iechyd, gydag argymhellion ar gyfer datblygu gwasanaethau.
- 4.40 Roedd trosglwyddo gwasanaethau iechyd o G4S i'r bwrdd iechyd lleol wedi arwain at wella strwythurau llywodraethu a goruchwyllo. Roedd gweithio mewn partneriaeth yn ei le. Er bod yr holl wasanaethau naill ai'n cael eu darparu neu eu comisiynu gan BIP CTM, nid oedd yr holl brosesau goruchwyllo a llywodraethu yn alinio â'i gilydd. Er enghraifft, roedd y risgiau'n cael eu deall yn dda ond nid oedd pob un yn cael ei adlewyrchu ar un gofrestr risg gynhwysfawr. Nid oedd y brif gofrestr risg yn cynnwys risgiau'r gwasanaeth deintyddol na'r problemau o ran diffyg gofod clinigol (gweler isod), gyda'r ddau yn peryglu'r gofal a ddarperir.
- 4.41 Roedd gwelliannau i wasanaethau a oedd yn gofyn am gytundeb partner i symud ymlaen yn cymryd gormod o amser, yn enwedig ymrwymiad gan G4S i ddarparu digon o hebryngwyr ysbyty bob dydd. Roedd y gofod clinigol sydd ar gael ar hyn o bryd i drin y boblogaeth bresennol o 1,700 o garcharorion yn is o lawer na'r hyn a ddisgwyliwyd, gan gyfyngu ar botensial y staffio presennol ac unrhyw gynnydd yn nifer y cleifion. Roedd y diffyg cynnydd o ran ehangu gofod y ddeintyddfa yn anfaddeuol, o ystyried yr amserlen a'r canlyniadau gwael ar gyfer iechyd deintyddol.
- 4.42 Roedd tîm arweinyddiaeth newydd ar waith erbyn hyn, ac roedd hyn wedi creu newid sylweddol i staff gofal iechyd. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi ac roeddent yn gyffrous

am y gwelliannau posibl i'r gwasanaeth. Roedd staff clinigol yn weladwy o amgylch y carchar ac wedi'u hyfforddi'n dda, ac roedd yr oruchwyliaeth yn 100%. Roedd swyddi gwag yn cael eu llenwi gan staff asiantaeth, ond nid oedd cynlluniau clir wedi'u cytuno ar y model staffio gofynnol.

- 4.43 Ac eithrio gweithwyr Dyfodol, roedd y rhan fwyaf o staff yn defnyddio'r un cofnodion iechyd clinigol ac yn gwneud cofnodion cynhwysfawr. Fodd bynnag, nid oedd llawer ohonynt wedi cael hyfforddiant digonol ar sut i ddefnyddio'r system i sicrhau'r gofal gorau posibl. Nid oedd gan bob claf gynllun gofal priodol, a oedd yn risg.
- 4.44 Cafodd digwyddiadau a chwynion annibynnol eu cofnodi a'u hymchwilio, a defnyddiwyd y dysgu i lywio arferion yn y dyfodol, er nad oedd rhai o argymhellion yr Ombwdsmon Carchardai a Phrawf wedi cael eu rhoi ar waith na'u gwreiddio. Roedd angen gwaith ychwanegol i sicrhau bod tueddiadau a themâu a gofnodwyd yn cael eu dadansoddi ar gyfer risg a bod camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â phryderon sy'n codi dro ar ôl tro. Roedd gwasanaeth cynghori a chyswllt cleifion (PALS) ar waith, gan ganiatáu cyswllt wyneb yn wyneb â'r darparwr iechyd.
- 4.45 Nid oedd pob gofod gofal iechyd yn ddigon glân, ac nid oedd archwiliadau rheoli wedi'u gwreiddio i wneud yn siŵr bod safonau'n cael eu diwallu. Roedd y man aros mawr yn y ganolfan iechyd yn foel ac yn oer, a heb ddigon o wybodaeth hybu iechyd fanteisgar ar ffurf taflenni neu ddysgu rhyngweithiol.

Hybu iechyd a lles

- 4.46 Roedd cynllun hybu iechyd wedi cael ei ddatblygu'n ddiweddar gyda chymorth gan y gaplaniaeth, yr adran addysg a'r staff arlwygo.
- 4.47 Roedd gwaith helaeth wedi cael ei wneud i gael gwared ar hepatitis C. Roedd sgrinio ar gyfer yr holl feirysau a gludir yn y gwaed a chlinigau brechu ar waith. Cynhaliwyd profion sgrinio ychwanegol, fel sgrinio'r coluddyn a'r retina, ond roedd rhai o'r gwasanaethau hyn yn orlawn. Darparwyd gwasanaethau iechyd rhywiol gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol sydd wedi'u hyfforddi'n briodol.
- 4.48 Rhoddwyd taflen hawdd ei darllen i newydd-ddyfodiaid am y gwasanaethau iechyd sydd ar gael a sut i gael gafael arnynt, ond prin oedd y wybodaeth gyffredinol fanteisgar am iechyd ar yr adeiniau. Roedd hyrwyddwyr iechyd (carcharorion a oedd yn hwyluso mynediad at wasanaethau iechyd) ar yr adeiniau, ac roeddent yn cael eu goruchwyllo gan y tîm PALS. Roedd cynllun wedi'i ddiweddarau ar gyfer brigiadau o achosion. Roedd gwaith ychwanegol wedi dechrau i uwchsgilio a hyfforddi swyddogion a chynorthwywyr cymorth gan gymheiriaid ym maes ymwybyddiaeth o ddementia.

Gwasanaethau gofal sylfaenol a chleifion mewnol

- 4.49 Darparwyd gwasanaethau gofal sylfaenol gan grŵp staff brwdfrydig sydd wedi'i hyfforddi'n dda. Roedd nifer y staff yn y maes hwn wedi gwella ac roedd staff asiantaeth yn llenwi swyddi gwag. Cafodd hyn ei adlewyrchu yn ein harolwg, lle dywedodd 43% o'r ymatebwyr ei bod yn hawdd gweld nyrs, sy'n debyg i garchardai tebyg. Roedd mynediad at feddyg teulu wedi gwella ac roedd hyn yn cael ei adlewyrchu yn ein harolwg. Er bod rhai amseroedd aros hirach, cynhaliwyd y rhan fwyaf o apwyntiadau wyneb yn wyneb yn brydlon, a chynhaliwyd y rheini y gwnaethom graffu arnynt rhwng tri a phum diwrnod ar ôl gwneud cais. Mae meddygon teulu a nyrsys gofal sylfaenol yn darparu ystod eang o ofal.
- 4.50 Er i'r sgrinio cychwynnol gael ei wneud gan nyrs gymwysedig, nid oedd pob sgrinio eilaidd yn cael ei gynnal gan nyrs gymwysedig, ac roedd hynny yn risg.
- 4.51 Roedd staff y gwasanaeth iechyd yn dda am oruchwylio a rheoli hebryngwyr ysbytai, ond nid oedd y nifer o hebryngwyr a gomisiynir yn diwallu anghenion y boblogaeth, gan achosi oedi o ran gofal.
- 4.52 Yr oedd nifer o nyrsys practis yn gyfrifol am gyflyrau hirdymor, ond yr oedd rhai bylchau. Er enghraifft, nid oedd y system gwybodaeth glinigol wedi'i sefydlu i sicrhau y gellid adolygu gofal yn gronolegol, ac nid oedd cynllun gofal gan bawb a oedd angen un. Er bod 11 o gleifion gyda chanser yn y carchar, nid oedd gan yr un ohonynt nyrs benodol, ac nid oedd gan bob un gynllun gofal cynhwysfawr. Cafodd y rheini ag anghenion gofal lliniarol eu rheoli'n dda drwy gydweithio â gwasanaethau cymunedol.
- 4.53 Roedd offer ymateb i argyfwng ar gael ar draws y carchar, ac roedd yr holl glinigwyr wedi'u hyfforddi i gynnal bywyd ac ar y safle 24/7. Dywedodd staff gofal iechyd wrthym nad oedd oedi o ran galwadau ambiwlans am argyfyngau, a chafodd offer dadebru ei archwilio'n rheolaidd.

Gofal cymdeithasol

- 4.54 Roedd y ddarpariaeth gofal cymdeithasol yn effeithiol, yn cael ei rheoli'n dda, ac yn cael ei llywio gan femorandwm cyd-ddealltwriaeth cyfoes a chynhwysfawr. Fodd bynnag, nid oedd y carchar yn goruchwylio'r broses, fel y nodir yn y ddogfen hon.
- 4.55 Roedd tîm gofal cymdeithasol helaeth ei adnoddau wedi'i leoli yn y carchar, a oedd yn creu gwelededd a hygyrchedd da. Adeg yr arolygiad, roedd 12 o gleifion yn derbyn pecyn gofal cymdeithasol (gweler y Rhestr Termiau), ac roedd gan bob un ohonynt gynlluniau gofal cyfatebol a thrylwyr. Roedd nyrs iechyd meddwl a seiciatrydd penodol o BIP CTM yn bresennol i asesu a chefnogi'r rheini sydd â phroblemau gyda'r cof.

- 4.56 Gallai cleifion wneud cais am asesiad gofal cymdeithasol drwy gais electronig. Roedd rhywfaint o oedi wrth drosglwyddo'r atgyfeiriadau electronig i'r tîm gofal cymdeithasol, er bod yr olaf yn cadw cofnod o'r holl atgyfeiriadau. Roedd bylchau o ran amserlenni yn y logiau presennol, felly nid oedd yn glir am ba mor hir yr oedd cleifion yn aros.
- 4.57 Cyrchwyd offer i gynorthwyo gyda gweithgareddau bywyd bob dydd gan therapydd galwedigaethol y tîm. Roedd gan gleifion anabl fynediad at larwm personol yn eu celloedd, i alw am gymorth brys.
- 4.58 Darparodd carcharorion dethol gymorth gan gymheiriaid i eraill. Roedd y cynorthwyr cymorth gan gymheiriaid y buom yn siarad â nhw yn deall eu rolau a'u ffiniau. Roedd aelod penodol o staff yn darparu goruchwyliaeth ddyddiol, a dywedodd cynorthwyr cymorth gan gymheiriaid wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, er nad oedd unrhyw hyfforddiant mewn meysydd lle byddai disgwyl gweld hynny, fel diogelu. Roedd hyfforddiant ar ddementia wedi'i drefnu ar gyfer yr unigolion hyn ym mis Chwefror 2025. Roedd yr adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth mewn perthynas â'r gweithwyr gofal cymdeithasol a'r swyddogion cymorth gan gymheiriaid yn gadarnhaol iawn. Roedd prosesau da ar waith ar gyfer parhad gofal ar ôl rhyddhau a throsglwyddiadau.

Iechyd meddwl

- 4.59 Roedd dau dîm iechyd meddwl; y tîm iechyd meddwl gofal sylfaenol (PCMHT) a'r tîm mewngymorth iechyd meddwl (MHIT). Nid oedd digon o adnoddau ar gyfer y gwasanaethau hyn ac nid oeddent wedi'u hintegreiddio. Roedd hyn yn effeithio ar y gallu i ddiwallu anghenion llawer o gleifion. Yn ein harolwg, dim ond 16% o'r ymatebwyr a ddywedodd ei bod yn hawdd gweld gweithiwr iechyd meddwl.
- 4.60 Cafodd y PCMHT tua 180 o atgyfeiriadau bob mis, a gallai cleifion hunangyfeirio, ond roedd y broses yn un hir. Fel arfer, roedd achosion brys yn cael eu gweld o fewn dau ddiwrnod ac atgyfeiriadau arferol o fewn 24 diwrnod, a oedd yn rhy hir i rai a fyddai'n elwa o ymyriad cynnar. Roedd y MHIT yn cynnal cyfarfod atgyfeirio wythnosol ar wahân, gydag 15 o gleifion yn aros am asesiad ar adeg yr arolygiad. Ychydig iawn o gleifion a dderbyniwyd ar y naill lwyth achosion na'r llall, gan fod y trothwyon ar gyfer derbyn yn rhy uchel.
- 4.61 Roedd y nyrsys iechyd meddwl yn fedrus iawn ac yn gweithio'n eithriadol o galed i geisio cadw'r rheini roeddent yn eu gweld yn ddiogel, ond roedd hyn yn heriol gan nad oedd unrhyw opsiwn i atgyfeirio at therapïau seicolegol. Roedd yr amseroedd aros i weld y seiciatrydd yn rhy hir (tua 22 wythnos ar gyfer apwyntiad dilynol). Roedd seiciatrydd newydd yn ei le erbyn hyn ac roedd y tîm yn adolygu gweithdrefnau.
- 4.62 Roedd gwasanaethau anabledd dysgu yn cael eu hailsefydlu, gyda ffocws i gychwyn ar ailintegreiddio i'r uned niwroamrywiaeth. Fodd bynnag, nid oedd llwybr asesu ar gyfer cleifion ag anhwylder diffyg

canolbwyntio a gorfywiogrwydd nac awtistiaeth, a arweiniodd at beidio â diwallu anghenion rhai cleifion.

- 4.63 Gwelsom ddogfennau da ar gyfer yr holl gleifion ar y llwyth gwaith MHIT. Cafodd cleifion eu cefnogi o dan Fesur Iechyd Meddwl Cymru. Roedd y rheini a oedd yn cael gofal gan y tîm iechyd meddwl lleol yn cadw mewn cysylltiad â'u gweithiwr gofal cymunedol am hyd at flwyddyn ar ôl cyrraedd y carchar.
- 4.64 Dywedodd staff wrthym fod eu perthynas waith â'r carchar yn gryfder, a gwelsom dystiolaeth dda o weithio amlddisgyblaethol yn ystod adolygiadau asesu, gofal yn y ddalfa a gwaith tîm (ACCT). Derbyniodd swyddogion hyfforddiant ymwybyddiaeth iechyd meddwl yn ystod y cyfnod ymsefydlu, ond nid oedd 55% o swyddogion wedi dilyn y pecyn e-ddysgu gloywi gofynnol.
- 4.65 Nid oedd y cleifion a aseswyd bod angen eu trosglwyddo i ysbyty ar gyfer triniaeth o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl bob amser yn cael eu trosglwyddo o fewn yr amserlen ofynnol. Adeg yr arolygiad, yr oedd tri o gleifion yn aros i gael eu trosglwyddo; yr oedd un ohonynt wedi bod yn aros am 68 diwrnod, a oedd yn annerbyniol.
- 4.66 Roedd trefniadau cyn-rhyddhau ar waith ar gyfer cleifion MHIT. Rhoddwyd gwybod i dimau iechyd meddwl cymunedol cyn rhyddhau carcharorion, ac adeg rhyddhau'r carcharorion, ac yna cafodd gofal y cleifion ei drosglwyddo iddynt. Dilynwyd hyn gan alwad ffôn gan MHIT i weithwyr cymunedol bythefnos ar ôl rhyddhau'r carcharorion i gael diweddariad cyffredinol, gan sicrhau trosglwyddo gofal yn ddiogel; roedd hon yn fenter ragorol ac yn gwella canlyniadau i gleifion.

Cymorth a thriniaeth ar gyfer carcharorion sy'n gaeth i sylweddau a'r rheini sy'n camddefnyddio sylweddau

- 4.67 Roedd y ddogfen strategaeth cyffuriau yn gyfredol ac roedd y carchar wedi hyfforddi 757 o staff i roi Nyxoid (chwistrelliad trwy'r trwyn i wrthdroi effeithiau gorddos opioid), a oedd yn fenter gadarnhaol. Yn ogystal, cyflwynwyd proses cofnod arsylwi camddefnyddio sylweddau, i godi ymwybyddiaeth ac i gefnogi cleifion y daethpwyd o hyd iddynt o dan ddylanwad sylweddau. Fodd bynnag, roedd camddefnyddio cyffuriau yn parhau i gael effaith negyddol ar ddiogelwch cleifion (gweler hefyd yr adran ar ddiogelwch).
- 4.68 Darparodd rhagnodydd annibynnol, sy'n fferyllydd rhan-amser cymwys, a gefnogir gan y meddygon teulu, ragnodiadau ar gyfer y 313 o gleifion sy'n cael therapi amnewidion opioid. Roedd dewisiadau rhagnodi hefyd yn cynnwys Buvidal (triniaeth opioid chwistrelladwy). Nid oedd digon o amser rhagnodi i weld yr holl gleifion yn rheolaidd neu i gynnal yr adolygiad disgwyledig ar ôl 13 wythnos. Roedd y rhagnodwyr wedi dogfennu penderfyniadau yn y prif gofnodion iechyd, ond nid oeddent yn cefnogi eu rhagnodiadau gyda chynlluniau gofal.
- 4.69 Roedd rhagnodwyr a gwasanaethau seicogymdeithasol yn gweithio'n dda gyda'i gilydd, ond roedd diffyg nyrsys camddefnyddio sylweddau

pwrpasol yn golygu bod Dyfodol yn rheoli'r apwyntiadau, gan flaenoriaethu newydd-ddyfodiaid, ac yn gofyn am newidiadau i bresgripsiynau. Cynhaliwyd rhai arsylwadau clinigol, asesiadau diddyfnu a phrofion wrin gan nyrsys gofal sylfaenol, ond roedd absenoldeb adolygiadau a chynlluniau gofal 13 wythnos yn peri pryder i ni o ran goruchwyllo cleifion.

- 4.70 Roedd staff Dyfodol yn gweld yr holl newydd-ddyfodiaid yn ystod y cyfnod ymsefydlu, gan roi cyngor lleihau niwed iddynt, ac yn rhoi gwybod iddynt sut i gael mynediad at y gwasanaeth seicogymdeithasol. Roeddent yn cefnogi tua 31% o boblogaeth y carchar, drwy asesiadau, gwaith un-i-un, hunangymorth dan arweiniad ac ymyriadau byr, gan gynnwys hyfforddiant hunanreolaeth ac adfer (SMART) a grwpiau addysg cyffuriau bob wythnos. Roedd gan bob gweithiwr achos lwyth achosion o dros 100, a dywedon nhw wrthym ni fod hynny'n teimlo'n aruthrol ac wedi arwain at ymyriadau wedi'u cynllunio anghyson, gan fod cleifion â risgiau uwch yn cael eu blaenoriaethu. Ni chafodd cymorth seicogymdeithasol ei gofnodi yn y prif gofnodion gofal iechyd, a oedd yn golygu nad oedd gwybodaeth allweddol yn cael ei rhannu.
- 4.71 Roedd uned byw yn rhydd o sylweddau gyda chymhellant yn nyddiau cynnar ei datblygiad. Roedd chwe mentor cymheiriaid, wedi'u hyfforddi gan Dyfodol. Roedd y rheini roeddem wedi siarad â nhw yn llawn cymhellant, yn dangos dealltwriaeth dda o'u rolau ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n llawn gan staff Dyfodol, a oedd yn eu goruchwyllo.
- 4.72 Gwnaed atgyfeiriadau cymunedol cyn rhyddhau carcharorion. Rhoddwyd cyngor lleihau niwed, a hefyd cyflenwad o naloxone (cyffur gwrthdroi opioid) a hyfforddiant ar sut i'w ddefnyddio, lle bo hynny'n briodol. I rai cleifion, byddai Dyfodol hefyd yn hebrwng cleifion i apwyntiadau neu i'w llety ar ôl eu rhyddhau, a oedd yn arfer da.

Optimeiddio meddyginiaethau a gwasanaethau fferylliaeth

- 4.73 Darparwyd meddyginiaethau gan ddarparwr mewnol yn brydlon. Roedd polisi mewn meddiant ar waith, a chofnodwyd asesiadau risg a gynhaliwyd ar y cofnod clinigol electronig. Nid oedd adolygiadau chwe mis bob amser yn cael eu cwblhau. Cafodd tua 50% o'r boblogaeth eu meddyginiaethau o dan y polisi mewn meddiant, a rhoddwyd cyflenwad 28 diwrnod i'r rhan fwyaf ohonynt. Cyflenwyd meddyginiaethau heb fod mewn meddiant ar sail cleifion a enwir, gyda labelu priodol a llwybr archwilio cyflenwi cyffuriau. Cofnodwyd y rhagnodi a'r gweinyddu ar y cofnod clinigol electronig.
- 4.74 Roedd meddyginiaethau'n cael eu rhoi gan dechnegwyr fferylliaeth a nyrsys o'r adeiniau dair gwaith y dydd, gyda darpariaeth ar gyfer cyflenwi meddyginiaethau yn ystod y nos pan fo angen. Nid oedd y swyddogion yn goruchwyllo'r ciwiau o feddyginiaethau mewn ffordd gyson, ac nid oedd gofod preifat ar gael bob amser i gleifion gymryd eu meddyginiaethau. Wrth fynd i'r hatsh, cafodd carcharorion gyngor am eu meddyginiaethau gan dechnegwyr y fferyllfa ac archwiliwyd eu cardiaid adnabod. Aeth staff ar drywydd y rhai nad oeddent yn dod i gael eu meddyginiaethau.

- 4.75 Roedd arferion rheoli meddyginiaethau ar yr adeiniau yn amrywiol. Roedd yr ystafelloedd triniaeth yn rhy fach, ac nid oedd digon o le yn y cypyrddau i storio meddyginiaethau'n ddiogel. Yn aml, roedd y cypyrddau wedi cael eu difrodi ac nid oedd modd eu cloi. Nid oedd archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal i waredu meddyginiaethau nad oedd eu hangen. Cafodd cabinetau cyffuriau rheoledig eu gadael ar agor wrth weinyddu'r feddyginiaeth, hyd yn oed pan nad oedd y cyffuriau hyn yn cael eu cyflenwi. Yn ogystal, nid oedd balansau agoriadol a therfynol y cyffuriau rheoledig yn cael eu cofnodi bob tro. Roedd meddyginiaethau yr oedd angen eu cadw mewn oergell yn cael eu storio'n briodol, ac roedd tymheredd yr oergelloedd yn cael eu monitro'n ddyddiol. Nid oedd gan gelloedd gypyrddau dan glo ar gyfer storio meddyginiaethau, ac nid oedd llawer o apwyntiadau cydgordio clinigol.
- 4.76 Adolygodd y fferyllwyr yr holl feddyginiaethau yn glinigol i ddarparu cymorth a goruchwyliaeth. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw glinigau na gwasanaethau dan arweiniad fferylliaeth, fel adolygiadau o feddyginiaethau. Prin oedd y ddarpariaeth ar gyfer cyflenwi meddyginiaethau heb fod angen gweld meddyg, ac nid oedd polisi ar gyfer meddyginiaethau dros y cownter nac unrhyw gyfarwyddiadau grŵp cleifion (sy'n awdurdodi gweithwyr gofal iechyd proffesiynol priodol i gyflenwi a gweinyddu meddyginiaeth ar bresgripsiwn). Nid oedd gan y cwpwrdd y tu allan i oriau arferol unrhyw feddyginiaethau wedi'u rhagbecynnu, ac roedd blychau meddyginiaeth y tu allan i oriau arferol yn cael eu gadael yn yr ystafell driniaeth, yn hytrach na chael eu dychwelyd i'r fferyllfa.
- 4.77 Cofnodwyd gwallau ar Datix (y system electronig ar gyfer adrodd am ddigwyddiadau) ac fe'u hadolygwyd. Roedd gweithdrefnau a phrotocolau ysgrifenedig ar waith. Roedd cyfarfodydd rheoli meddyginiaethau rheolaidd, ond roedd angen adolygu gweithdrefnau gweithredu diogel y fferyllfa. Roedd rhagnodi meddyginiaethau camddefnyddiadwy yn cael ei fonitro ac roedd strategaeth wedi lleihau'r cyfraddau rhagnodi Gabapentin (meddyginiaeth wrth-epileptig). Roedd darpariaeth briodol ar gyfer cleifion a adawodd y carchar.

Gwasanaethau deintyddol ac iechyd y geg

- 4.78 Roedd mynediad at ofal deintyddol arferol bellach yn waeth nag adeg yr arolygiad blaenorol. Ar y pryd, roedd y cyfnod aros am ofal arferol tua 18 mis, ond erbyn hyn dim ond ar gyfer achosion brys yr oedd y gwasanaeth yn darparu triniaeth, ac roedd BIP CTM wedi cytuno ar hyn. Nid yw un deintyddfa yn ddigonol ar gyfer nifer y carcharorion ac, er bod cynllun i ychwanegu deintyddfa arall, nid oedd disgwyl i hyn fod yn ei le tan 2028. Dywedwyd wrthym fod gwasanaeth penwythnos ychwanegol yn cael ei ystyried i helpu i leihau amseroedd aros i'r rheini sydd mewn poen, ond nid oedd partneriaid uwch y carchar a phartneriaid iechyd wedi bwrw ymlaen â hyn. Byddai deintyddfa symudol ychwanegol wedi gallu gwella'r capasiti ar gyfer gofal yn fawr, ond nid oedd hyn wedi'i ddechrau.

- 4.79 Roedd hyn yn golygu nad oedd archwiliadau rheolaidd a chynlluniau triniaeth yn cael eu darparu, a oedd yn ddiffyg, ac roedd hynny'n cael effaith ddifrifol ar garcharorion, yn enwedig y rheini a oedd â dedfrydau estynedig. Roedd y diffyg gofal arferol wedi arwain at ddirywiad yn iechyd deintyddol cleifion, gan arwain at yr angen am fwy o ofal brys a dibyniaeth ar ddulliau lleddfu poen a gwrthfotigau i reoli cyflyrau, a oedd yn wael.
- 4.80 Cafodd rhestrau aros eu cynnal ar gyfer cleifion brys a chleifion newydd, gyda 96 a 327 o gleifion, yn y drefn honno, ar y rhain. Ni chafodd cleifion newydd na rhai sy'n dychwelyd asesiad llawn. Nid oedd y tîm yn cynnwys therapydd na hylenydd oherwydd diffyg gofod clinigol.
- 4.81 Roedd carcharorion yn gwybod mai'r unig ffordd o gael gafael ar ofal deintyddol oedd rhoi gwybod am boen, a oedd yn creu sefyllfaoedd lle'r oedd y rheini a oedd yn ceisio cael gafael ar ofal arferol neu adferol yn cael eu gwrthod yn ystod yr apwyntiad, gan greu'r posibilrwydd o wrthdaro a sicrhau bod y rheini sydd mewn poen aciwt yn gorfod aros am gyfnod hirach.
- 4.82 Darparwyd cyngor ar iechyd y geg a hylendid deintyddol yn ystod triniaeth, ac roedd gwybodaeth ar gael yn y ddeintyddfa. Fodd bynnag, nid oedd gwybodaeth am ofal iechyd deintyddol ar gael ar yr adeiniau, a oedd yn golygu nad oedd y rheini nad oeddent yn gallu cael gafael ar ofal yn gallu cyrchu gwybodaeth am hunanofal, a oedd yn gyfle a gollwyd.
- 4.83 Roedd y trefniadau llywodraethu yn dda. Roedd awtoclafau a baddonau uwchsain yn cael eu gwasanaethu a'u cynnal yn briodol. Roedd y ddeintyddfa a'r ystafell ddihalogi drws nesaf yn lân ac yn drefnus, gyda dodrefn a chypyrddau mewn cyflwr da. Fodd bynnag, roeddem o'r farn nad oedd yr awyru'n ddigonol, ac roedd y ddeintyddfa yn anghyfforddus o gynnes. Yn ogystal, nid oedd llif aer yr ystafell ddihalogi yn cyd-fynd â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru. Roedd rhai meysydd pellach yr oedd angen eu datrys, gan gynnwys gwastraff clinigol yn cael ei storio mewn cewyll ynghyd â gwastraff domestig, ac absenoldeb diffoddydd tân hygyrch.

Adran 5 Gweithgareddau pwrpasol

Mae carcharorion yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n debygol o fod o fudd iddynt, ac mae disgwyl iddynt wneud hynny.

Amser allan o'r gell

Canlyniadau disgwyliedig: Mae pob carcharor yn cael digon o amser y tu allan i'r gell (gweler y Rhestr Termau) ac yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden a chymdeithasol, sy'n cefnogi eu llesiant ac yn hyrwyddo adsefydlu effeithiol.

- 5.1 Wrth wirio'r gofrestr, canfu bod 38% o'r boblogaeth o dan glo yn ystod y diwrnod gwaith. Dim ond 22% o'r boblogaeth oedd oddi ar yr adeiniau, yn mynychu sesiynau gwaith neu addysg. Roedd bron i un o bob pump o garcharorion yn ddi-waith; roeddent allan o'r gell am hyd at awr a hanner y dydd, er mwyn gwneud tasgau domestig ac i gymdeithasu, ac am rywfaint o amser ychwanegol i gasglu a bwyta eu prydau bwyd. Gallai gweithwyr amser llawn dreulio hyd at 10 awr y dydd allan o'u celloedd yn ystod yr wythnos.
- 5.2 Yn ein harolwg, dim ond 41% o'r ymatebwyr a ddywedodd fod yr amseroedd a'r drefn yn cael eu cynnal, a dim ond 80% ddywedodd eu bod yn gwybod beth oedd yr amseroedd datgloi a chloi. O ran yr adeiniau arbenigol, roedd llawer o amrywiadau yn y drefn, a oedd yn creu rhywfaint o ddryswch ymysg carcharorion a staff. Yn ogystal, mynegodd carcharorion rwystredigaeth nad oedd newidiadau yn y drefn bob amser yn cael eu cyfleu'n dda, a bod amseroedd datgloi'n newid weithiau, yn dibynnu ar y swyddogion carchar oedd yn gweithio. Yn ein harolwg, dywedodd mwy o ymatebwyr nag mewn carchardai tebyg eu bod yn treulio llai na dwy awr allan o'u cell ar ddydd Sadwrn a dydd Sul (45% o'i gymharu â 31%).
- 5.3 Roedd rhywfaint o offer hamdden ar gael mewn unedau preswyl, a oedd yn cynnwys byrddau tenis bwrdd, dartiau a rhai gemau bwrdd. Fodd bynnag, prin oedd y gweithgareddau cyfoethogi, naill ai ar yr adeiniau neu mewn ardaloedd eraill, fel y llyfrgell.
- 5.4 Roedd amser yn yr awyr iach wedi cynyddu i awr y dydd, a gallai pob carcharor gael mynediad at hyn. Fodd bynnag, roedd llawer o'r iardiau ymarfer yn foel ac roedd gormod o sbwriel yno (gweler paragraff 4.6).
- 5.5 Roedd data carchardai yn dangos bod 52% o'r boblogaeth yn defnyddio'r gampfa'n rheolaidd, a gallai carcharorion gael hyd at bedair sesiwn yr wythnos. Roeddent yn canmol y ddarpariaeth addysg gorfforol, yn enwedig staff y gampfa.
- 5.6 Roedd dwy gampfa ar gael, gan gynnwys un ar gyfer carcharorion agored i niwed, ac roedd llawer o ddefnydd yn cael ei wneud o'r cae

chwaraeon. Roedd amrywiaeth eang o offer, ac roedd staff wedi ymgynghori â charcharorion am eitemau newydd roeddent am eu cael. Fodd bynnag, roedd nifer o ddarnau o offer nad oedd modd eu defnyddio, a oedd yn achosi rhwystredigaeth.

- 5.7 Roedd amserlen y gampfa yn cynnwys amrywiaeth o sesiynau i ddiwallu anghenion y boblogaeth, gan gynnwys ar gyfer carcharorion hŷn ac LHDT+. Roedd tîm rygbi lleol yn mynychu ac yn darparu hyfforddiant i garcharorion yn rheolaidd.
- 5.8 Nid oedd digon o ddefnydd yn cael ei wneud o'r ddwy lyfrgell. Dim ond 39% o'r rheini a ymatebodd i'n harolwg a ddywedodd y gallent gael mynediad at lyfrgell unwaith yr wythnos neu fwy, o gymharu â 54% mewn carchardai tebyg.
- 5.9 Roedd y brif lyfrgell wedi'i lleoli yn yr adeilad addysg, ac roedd ar gael i'r rheini oedd yn mynychu dosbarthiadau yn ystod yr wythnos yn unig. Dim ond bob yn ail ddydd Sadwrn y cafodd carcharorion nad oeddent yn mynychu dosbarthiadau addysg y cyfle i ymweld. Yn aml, roedd y llyfrgell ar gyfer carcharorion sy'n agored i niwed ar gau, oherwydd diffygion o ran staffio. Darparwyd gwasanaeth troli yn lle hynny.
- 5.10 Roedd y ddwy lyfrgell yn fannau braf, a oedd wedi'u stocio'n dda ac yn cynnwys amrywiaeth o adnoddau, gan gynnwys llyfrau ar gyfer egin ddarllenwyr, llyfrau sain a llyfrau Cymraeg. Roedd y gwasanaeth yn cael ei redeg gan dîm brwdfrydig, a oedd wedi cyflwyno cynllun i hyrwyddo darllen ymhlith tadau a phlant. Yn ogystal, roedd gan y carchar 'ddarllenydd preswyl', a oedd yn cefnogi gweithgareddau i hyrwyddo darllen, gan gynnwys clybiau llyfrau (gweler hefyd baragraff 5.41).

Gweithgareddau addysg, sgiliau a gwaith



Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Cynhelir y rhan hon o'r arolygiad gan arolygwyr Estyn, gan ddefnyddio fframwaith arolygu cyffredin Estyn. Mae hyn yn sicrhau bod carchardai'n cael eu dal yn atebol i'r un safon perfformiad â cholegau addysg bellach yn y gymuned.

Canlyniadau disgwyledig: Gall pob carcharor gymryd rhan mewn **gweithgareddau** pwrpasol, sydd o fudd iddynt ac sy'n gwella eu cyflogadwyedd. Anogir a galluogir carcharorion i ddysgu yn ystod ac ar ôl eu dedfryd. Mae'r ddarpariaeth dysgu, sgiliau a gwaith o safon dda ac yn effeithiol o ran diwallu anghenion pob carcharor.

- 5.11 Gwnaeth Estyn yr asesiadau canlynol am y ddarpariaeth dysgu, sgiliau a gwaith:

Nid oedd y canlyniadau i garcharorion yn ddigon da.

Safonau

- 5.12 Ar draws darpariaeth addysg a hyfforddiant y carchar, gwnaeth y rhan fwyaf o ddysgwyr a fynychodd sesiynau gynnydd addas o ran datblygu eu sgiliau llythrennedd, rhifedd neu alwedigaethol o'u mannau cychwyn. Fodd bynnag, ni wnaeth lleiafrif o garcharorion ddigon o gynnydd ar y cyfan, a hynny'n rhannol oherwydd presenoldeb gwael.
- 5.13 Yn ystod blwyddyn galendr 2024, roedd llawer o darfu ar gyfleoedd dysgwyr i fynychu neu gwblhau eu cyrsiau addysg a hyfforddiant. Er hynny, roedd y dysgwyr hynny a oedd yn bresennol fel arfer yn cwblhau eu cyrsiau ac yn ennill eu cymwysterau'n llwyddiannus. Fodd bynnag, nid oedd cyflawniad ychydig o grwpiau dysgwyr lleiafrifoedd ethnig mor gryf â dysgwyr gwyn Prydeinig neu Wyddelig gwyn.
- 5.14 Mewn dosbarthiadau sgiliau hanfodol ar gyfer llythrennedd a rhifedd, roedd y rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud cynnydd addas wrth ddatblygu eu sgiliau o'u mannau cychwyn. Yn y sesiynau, roedd bron pob dysgwr yn gwrando ac yn ymateb yn dda i eraill. Roedd llawer yn gofyn cwestiynau meddylgar. Fodd bynnag, dim ond lleiafrif a wnaeth gysylltiadau rhwng gwahanol agweddau ar eu gwaith. Yn ôl eu gallu, roedd llawysgrifen bron pob dysgwr yn glir, ac roedd y rhan fwyaf yn llwyddo i gyfleu eu hystyr drwy eu hysgrifennu.
- 5.15 Roedd y defnydd helaeth o lyfrau gwaith a'r diffyg addysgu dan gyfarwyddyd yn golygu bod dysgwyr ym maes sgiliau hanfodol yn canolbwyntio ar gwblhau tasgau asesu neu baratoi ar gyfer asesiadau. I leiafrif o ddysgwyr, arweiniodd hyn at ddiffyg her a chynnydd araf.
- 5.16 Er bod ychydig iawn o ddysgwyr wedi datblygu sgiliau digidol defnyddiol mewn cyd-destunau fel gorsaf radio'r carchar, nid oedd dysgwyr yn datblygu eu sgiliau digidol yn systematig. Doedden nhw ddim yn cael llawer o gyfleoedd i ddefnyddio offer digidol.
- 5.17 Datblygodd y rhan fwyaf o ddysgwyr a oedd yn mynychu rhaglenni galwedigaethol - fel gwaith coed, gwaith brics, peintio ac addurno, ac aml-sgiliau - sgiliau crefftus a sgiliau defnyddio offer gwerth chweil. Er enghraifft, fe wnaethon nhw adeiladu uniadau gwaith coed cywir gan ddefnyddio offer llaw safonol, hongian papur wal, datblygu technegau peintio ac addurno, ac adeiladu waliau brics diogel gyda gwaith pwyntio a bylchau cywir. Gwnaethant gynnydd cadarn tuag at ennill cymwysterau lefel mynediad, neu gymwysterau lefel 1 neu 2.
- 5.18 Yn y rhain, a sesiynau galwedigaethol a chymhwysol eraill, fel cyrsiau chwaraeon ac iechyd a lles, cymhwysodd dysgwyr sgiliau rhifedd yn dda yn eu cyd-destunau galwedigaethol. Er enghraifft, roeddent yn mesur, yn gweithio gydag onglau ac yn cymysgu'r cynhwysion ar gyfer mortar gan ddefnyddio cymarebau. Gwnaethant gyfrifo cyfradd

optimaidd y galon ar gyfer ymarfer corff er mwyn llosgi braster neu i hyfforddi'n erobig.

- 5.19 Roedd gan y rhan fwyaf o gyrsiau addysg y carchar fodel cyflenwi mewn ac allan ac, ar y cyfan, roedd y dull hwn yn galluogi dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth yn briodol. Fodd bynnag, mewn rhai cyrsiau, roedd y model hwn yn golygu bod dysgwyr a oedd yn bresennol ar gamau diweddarach y rhaglen yn cael trafferth datblygu sylfeini cadarn, ac roedd y bylchau hyn yn eu dysgu yn arafu eu cynnydd.
- 5.20 Cafodd dysgwyr a fynychodd sesiynau ar efelychydd gyrru wagen fforch godi y carchar achrediau gwerthfawr. Llwyddodd rhai dysgwyr a oedd ar fin cael eu rhyddhau i gael yr achrediad ar gyfer cerdyn sylfaenol y Cynllun Ardystio Sgiliau Adeiladu, a oedd yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr iddynt gael gwaith ar ôl cael eu rhyddhau.
- 5.21 Gwnaeth yr ychydig iawn o ddysgwyr sy'n ymgymryd â dysgu lefel uwch gynnydd da tuag at astudio ar gyfer diplomâu, graddau neu gymwysterau lefel uwch.
- 5.22 Roedd rhai dysgwyr nad oeddent mewn addysg a hyfforddiant ffurfiol, ond a oedd yn gweithio yng ngweithrediadau gweithgynhyrchu, glanhau ac ailgylchu'r carchar, wedi cwblhau cymwysterau galwedigaethol defnyddiol drwy ddarparwr hyfforddiant dysgu seiliedig ar waith.

Llesiant ac agweddau at ddysgu

- 5.23 Roedd presenoldeb mewn sesiynau addysg a hyfforddiant yn wael yn gyffredinol, ac nid oedd bron i draean y carcharorion nad oeddent yn bresennol yn elwa'n llawn ar ddysgu.
- 5.24 Roedd llawer o ddysgwyr yn teimlo bod anghysonderau yn y drefn, ac annhegwch o ran dyraniadau neu fynediad at ddarpariaethau, yn eu cymell i beidio â mynychu sesiynau addysg neu ddefnyddio'r llyfrgell. Er enghraifft, roeddent yn aml yn cyrraedd eu hadain yn hwyr am ginio oherwydd oedi wrth symud o amgylch y carchar ar ddiwedd sesiwn, roeddent yn cael llai o gyfleoedd i fynd i'r gampfa na'r rheini nad oeddent wedi'u dyrannu i addysg, ac roedd mynediad at y llyfrgell yn gwrthdaro ag amser ymweld.
- 5.25 Roedd bron pob dysgwr yn teimlo'n ddiogel, yn cael cefnogaeth ac yn cael gofal mewn gweithgareddau addysg a hyfforddiant. Roeddent yn gwerthfawrogi cefnogaeth y staff addysg yn fawr. Roeddent yn ymddwyn yn dda yn ystod y gwersi ac yn trin staff a chymheiriaid â pharch.
- 5.26 Roedd y rhan fwyaf o'r dysgwyr yn setlo'n gyflym ar ddechrau'r sesiynau ac yn parhau â'u gwaith neu eu gweithgareddau heb lawer o gyfarwyddyd na chefnogaeth. Roeddent yn dilyn trefniadau sefydledig, fel rhoi cynnig ar weithgareddau cychwynnol yn brydlon, a gofalu am adnoddau a defnyddio offer, cyfarpar a thechnolegau digidol yn gyfrifol.

Roedd gan y rhan fwyaf o'r dysgwyr ddealltwriaeth glir o ofynion ac amcanion dysgu eu cyrsiau a sut y byddai'r rhain yn eu cefnogi ar ôl iddynt gael eu rhyddhau.

- 5.27 Yn y gwersi, roedd llawer o ddysgwyr yn ymateb yn gadarnhaol i adborth llafar gan staff ac yn defnyddio hyn i wella eu gwaith. Roeddent yn cymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau a gynlluniwyd am gyfnodau estynedig, gan ddangos ffocws ac ymrwymiad addas, ac adolygodd lleiafrif o ddysgwyr eu gwaith, gan gywiro eu camgymeriadau'n llwyddiannus. Fodd bynnag, roedd rhai dysgwyr yn oddefol yn ystod gweithgareddau gwaith grŵp estynedig neu ailadroddus, neu pan gawsant eu dyrannu i gyrsiau nad oeddent wedi eu dewis.
- 5.28 Roedd mentoriaid cymheiriaid mewn addysg yn gryfder nodedig ac yn ymfalchïo yn eu rolau. Roeddent yn darparu cymorth un-i-un effeithiol iawn i ddysgwyr mewn amrywiaeth o dasgau a gweithgareddau, gan gynnwys cwblhau asesiadau ysgrifenedig, gwe-lywio technoleg a chefnogi dysgwyr i wneud cynnydd os oeddent yn cael anawsterau. O ganlyniad, roedd dysgwyr yn gwerthfawrogi cefnogaeth mentoriaid cymheiriaid yn eu dosbarthiadau. Yn yr un modd, chwaraeodd mentoriaid Ymddiriedolaeth Shannon (gweler y Rhestr Termu) ran bwysig yn y gwaith o ddysgu allgymorth, ac roedd carcharorion yn aml yn gofyn am gymorth ganddynt.
- 5.29 Roedd bron yr holl ddysgwyr a charcharorion yn gwrtais wrth ymwelwyr ac yn ddigon parod i gymryd rhan mewn trafodaethau am eu profiadau addysgol neu seiliedig ar waith. Roedd y rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwerthfawrogi eu cyfleoedd ar gyfer dysgu. Fe wnaethon nhw rannu eu gwaith ac esbonio eu tasgau'n frwdfrydig. Pan oedd y gweithgareddau'n rhoi'r cyfle, roedd y rhan fwyaf o'r dysgwyr yn hapus i gymryd rhan mewn trafodaethau dosbarth ac yn cydweithio'n barchus yn ystod gweithgareddau grŵp. Roeddent yn gwrando'n astud tra oedd eraill yn siarad ac yn adeiladu'n llwyddiannus ar y syniadau hyn gyda'u cyfraniadau.

Profiadau dysgu ac addysgu

- 5.30 Roedd yr hyfforddiant a ddarparwyd i ddysgwyr ddod yn fentoriaid cymheiriaid mewn addysg, ac i weithio ochr yn ochr â'r athrawon i gefnogi dysgu, yn gryf. Roedd dysgwyr yn ymgysylltu'n frwd ac yn llawn cymhelliant i ddatblygu yn y rôl hon.
- 5.31 Roedd athrawon wedi creu awyrgylch croesawgar, yn seiliedig ar barch. Roedd bron pob aelod o staff yn rheoli ymddygiad dysgwyr yn effeithiol ac yn defnyddio amrywiaeth o dechnegau i gynnal eu diddordeb mewn tasgau.
- 5.32 Roedd athrawon yn dangos gwybodaeth addas am bynciau. Yn y rhan fwyaf o'r sesiynau, roedd diben clir i'r dysgu, ac roedd yr athrawon yn cynllunio gwersi gyda gweithgareddau a oedd yn cefnogi dilyniant dysgu'n addas.

- 5.33 Yn y sesiynau cryfaf, roedd athrawon yn defnyddio cwestiynu'n effeithiol i adalw dysgu blaenorol i gefnogi dysgwyr i wneud cynnydd a symud y dysgu yn ei flaen. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn gyson ar draws y gwahanol feysydd dysgu. Nid oedd digon o gyfleoedd mewn sesiynau llythrennedd a rhifedd i gymhwyso'r hyn a ddysgwyd i gyd-destunau ystyrion yn y byd go iawn, a'r tu allan i sesiynau sgiliau hanfodol, nid oedd athrawon yn datblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd dysgwyr yn ddigon da. Mewn rhai achosion, roedd gan y dysgwyr amserlenni ar wahân ar gyfer dosbarthiadau sgiliau hanfodol a gweithdai galwedigaethol. O ganlyniad, ni chawsant y cyfle i ymgysylltu'n llawn â dysgu'r ddau gwrs.
- 5.34 Mewn lleiafrif o'r sesiynau, nid oedd yr athrawon wedi strwythuro'r dysgu'n ddigon da i sicrhau cynnydd cryf gan y dysgwyr. Yn yr un modd, mewn lleiafrif o sesiynau, nid oedd yr addysgu bob amser yn diwallu anghenion dysgwyr. Er enghraifft, nid oedd athrawon bob amser yn gwybod nac yn ystyried mannau cychwyn yn ddigon da nac yn darparu gweithgareddau heriol i symud y dysgu ymlaen. O ganlyniad, roedd y cynnydd a chyflymder y dysgu yn araf. Roedd y dull cyflenwi mewn ac allan i garcharorion, gyda charfannau cyfnewidiol, wedi effeithio ar allu rhai athrawon mewn meysydd pwnc penodol i ddiwallu anghenion pob dysgwr yn effeithiol. Mewn rhai gwersi, roedd gorddibyniaeth ar addysgu gan ddefnyddio methodoleg gul yn llesteirio annibyniaeth y dysgwyr a'u gallu i ddatblygu sgiliau meddwl lefel uwch. Er bod rhai athrawon yn y sesiynau hyn yn cefnogi dysgwyr yn briodol i wneud cynnydd, nid oeddent yn darparu digon o addysgu i gefnogi cyflymder dysgu addas. Yn ogystal, roedd heriau ac annibynadwyedd yr isadeiledd digidol yn cael effaith negyddol ar asesiadau, addysgu a dysgu.
- 5.35 Ym mron pob gwrs, roedd athrawon yn cefnogi dysgwyr yn effeithiol gydag adborth amserol a chefnogol. Yn y mwyafrif o wersi, roedd athrawon yn rhagweithiol wrth symud o amgylch yr ystafell, gan oruchwylio cynnydd y dysgwyr ac ymgysylltu yn effeithiol. Lle bo hynny'n briodol, roeddent yn darparu adborth ffurfiannol addas oedd yn gysylltiedig â thasgau asesu. Yn gyffredinol, manteisiodd athrawon a dysgwyr yn dda ar y gefnogaeth a ddarparwyd gan fentoriaid cymheiriaid mewn addysg, a ychwanegodd werth sylweddol at ansawdd y gefnogaeth sydd ar gael i ddysgwyr eraill. Fe wnaethant weithio ar sail un-i-un i helpu carcharorion i ddatblygu eu dealltwriaeth ac roeddent yn rhagweithiol wrth gynorthwyo ymgysylltiad dysgwyr â thasgau.

Gofal, cymorth ac arweiniad

- 5.36 Casglodd y carchar wybodaeth ddefnyddiol yn ystod y cyfnod ymsefydlu i gefnogi carcharorion wrth ddatblygu cynlluniau dysgu a gwaith unigol. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am anghenion dysgu ychwanegol dysgwyr ac unrhyw wendidau. Roedd y gweithgareddau ymsefydlu hefyd ar gael yn Gymraeg. Fodd bynnag, ni wnaeth y darparwr olrhain cynnydd yn erbyn y cynlluniau hyn. Ymhellach, roedd cyfnod sylweddol pan na ddigwyddodd y gweithgareddau ymsefydlu hyn i rai dysgwyr. Parhaodd y ffactorau hyn

i gael effaith negyddol ar ddealltwriaeth y carcharorion hyn o addysg, hyfforddiant a pharatoadau i'w rhyddhau, ac o ran eu hymgysylltiad.

- 5.37 Defnyddiodd y darparwr ystod ddefnyddiol o ymyriadau a chefnogaeth i ddysgwyr oresgyn rhwystrau i ddysgu. Er enghraifft, roedd y carchar wedi ailgyflwyno allgymorth ar adeiniau yn ddiweddar i ddarparu sgiliau hanfodol a hyrwyddwyr darllen i hyrwyddo darllen ar draws y carchar. Fodd bynnag, roedd anghysondebau o ran darparu yn cael effaith negyddol ar hyn yn rhy aml.
- 5.38 Roedd staff a dysgwyr yn gwerthfawrogi rôl y mentoriaid cymheiriaid o ran cefnogi dysgwyr, ar yr adeiniau ac mewn sesiynau. Roedd y mentoriaid cymheiriaid hyn yn cynnig cefnogaeth effeithiol iawn i'w cymheiriaid o ran eu dysgu a'u llesiant. Ar ben hynny, roeddent yn fodolau rôl cadarnhaol ac yn eu cefnogi'n llwyddiannus i ddeall gwerth addysg a hyfforddiant.
- 5.39 Roedd y rhan fwyaf o'r staff yn adnabod eu dysgwyr yn dda, yn datblygu perthynas gadarnhaol â nhw ac yn gweithio'n hyblyg i ddiwallu eu hanghenion unigol. Roedd y darparwr wedi cryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr niwrowahanol ar adain Cynnwys; er enghraifft, cyflwyno cymwysterau newydd gyda ffocws priodol ar sgiliau bywyd a chryfhau adnoddau i ddiwallu anghenion synhwyraidd dysgwyr. Roedd y carchar yn cefnogi Saesneg ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill (ESOL) drwy sesiynau wedi'u targedu a chefnogaeth ar yr adeiniau gan Ymddiriedolaeth Shannon. Fodd bynnag, er bod staff wedi datblygu perthynas gadarnhaol â'u dysgwyr, roedd eu dealltwriaeth o'u hanghenion dysgu ychwanegol a'u cefnogaeth iddynt yn amrywiol. Roedd hyn yn rhannol oherwydd cyfyngiadau systemau rhannu gwybodaeth ar draws y carchar. Ar ben hynny, prin oedd y gwaith o werthuso ansawdd y cymorth hwn i ddysgwyr.
- 5.40 Darparodd y carchar gyngor ac arweiniad addas i garcharorion baratoi ar gyfer cael eu rhyddhau. Er enghraifft, cafwyd sesiynau gyda Gyrfa Cymru i ysgrifennu CVs a chyrsgiau penodol i baratoi ar gyfer gwaith, fel gosod toeon. Ar ben hynny, cafodd dysgwyr eu gwahodd i ffeiriau swyddi cyn cael eu rhyddhau neu eu cefnogi i gael gafael ar gyllid ac arweiniad i sefydlu eu busnesau eu hunain. Cafodd hyn ei wella gan gyfleusterau buddiol fel efelychydd i helpu dysgwyr i ennill achrediad wagen fforch godi. Fodd bynnag, nid oedd llawer o'r dysgwyr yn ymwybodol o gyfleoedd, cyngor ac arweiniad i'w paratoi ar gyfer cael eu rhyddhau. Dros y 12 mis diwethaf, nid oedd y carchar wedi defnyddio cyfleoedd rhyddhau ar drwydded dros dro i baratoi dysgwyr ar gyfer eu camau nesaf.
- 5.41 Oherwydd effaith heriau staffio a newidiadau gweithredol ers yr arolygiad diwethaf, cafodd llawer o newidiadau eu sefydlu o'r newydd. Er enghraifft, yn ddiweddar, roedd y carchar wedi ailgyflwyno addysg allgymorth ar yr adeiniau, a'r darllenydd preswyl (gweler hefyd baragraff 5.10).

Arweinyddiaeth a rheoli

- 5.42 Dros y flwyddyn ddiwethaf, roedd tîm ymroddedig o uwch arweinwyr wedi gweithio'n ddiwyd i fynd i'r afael â llawer o'r heriau a ddaeth yn sgil y newidiadau yn y trefniadau cytundebol ar gyfer darparu addysg a hyfforddiant. Roeddent wedi gweithio'n dda gyda staff i feithrin ethos tîm ac ymdeimlad cyffredin o bwrpas, er gwaethaf heriau sylweddol o ran staffio a newidiadau i arferion gwaith ers yr arolygiad diwethaf.
- 5.43 Roedd arweinwyr wedi cyflwyno prosesau sicrwydd ansawdd defnyddiol a oedd yn defnyddio tystiolaeth uniongyrchol i nodi meysydd cyffredinol i'w gwella. Roedd eu hadolygiad wedi arwain at gynllun a gweledigaeth hirdymor addas ar gyfer addysg, sgiliau, gwaith a chymau gweithredu i fynd i'r afael ag anghenion dysgu proffesiynol y staff. Cafodd yr holl staff addysgu newydd gyflwyniad cynhwysfawr i addysg mewn carchardai.
- 5.44 Darparodd y partner cyflenwi dan gontract (Novus Gower) ar gyfer addysg gefnogaeth werthfawr i staff ar bob lefel i ddatblygu'r ddarpariaeth, darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol i staff, fel datblygu'r defnydd o'r Gymraeg mewn ystafelloedd dosbarth, a hwyluso cyfleoedd i rannu ymarfer. Roedd trefniadau rheoli perfformiad addas ar waith.
- 5.45 Roedd arweinwyr wedi addasu'r cwricwlwm, gan roi ystyriaeth briodol i wybodaeth am y farchnad lafur, canlyniadau hunan-arfarnu a diddordebau dysgwyr. Roedd staff wedi gwneud llawer iawn o waith gwerthfawr i sicrhau bod gan gyrsiau gynlluniau dysgu addas, ac i wella'r systemau ar gyfer cyflwyno cyrsiau achrededig. Roedd y gwaith hwn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau dysgwyr.
- 5.46 Roedd strategaeth ddarllen gynhwysfawr ar waith, gan gynnwys cefnogaeth helaeth a rheolaidd gan awdur i annog y dynion ar yr adeiniau i ddarllen er pleser. Dadansoddodd arweinwyr ddata ar gyrhaeddiad yn effeithiol i nodi a gweithredu camau gwella i fynd i'r afael â thanberfformiad grwpiau penodol o ddysgwyr. Fodd bynnag, roedd hi'n rhy gynnar i ddadansoddi effaith y gwaith hwn. Roedd mynediad at y llyfrgelloedd yn y carchar yn gyfyngedig i'r rhan fwyaf o ddysgwyr (gweler hefyd baragraff 5.8).
- 5.47 Adeg yr arolygiad, roedd heriau a diffygion sylweddol mewn prosesau yn dal i lesteirio cynnydd tuag at flaenoriaethau a nodwyd, gan gynnwys gwella ansawdd yr addysgu a'r ddarpariaeth. Roedd gwendidau o ran dyrannu carcharorion i lwybrau a chysiau. Yn rhy aml, roedd carcharorion yn cael eu dyrannu i gyrsiau nad oeddent wedi dewis eu dilyn. Roedd hyn yn cyfrannu at ddiffygion o ran ymgysylltu â dysgwyr, presenoldeb a chyflymder eu cynnydd. Nid oedd llawer o lwybrau addysg yn llawn. Nid oedd carcharorion nad oeddent mewn addysg, sgiliau a gwaith yn cael gwybod am yr ystod llawn o achrediau galwedigaethol a chymorth a oedd ar gael iddynt fel rhan o'r gwaith o gynllunio ar gyfer ailsefydlu. Nid oedd gan arweinwyr ddigon o oruchwyliaeth ar rai agweddau ar y gwaith a'r hyfforddiant a ddarparwyd, ac o ganlyniad, nid oedd canlyniadau'r dysgwyr hyn

wedi'u cynnwys yng ngwerthusiad cyffredinol y darparwyr o'r ddarpariaeth.

- 5.48 Roedd newidiadau cyson i'r weithdrefn, a gwendidau o ran symud carcharorion yn ôl ac ymlaen o weithgareddau, yn effeithio ar barhad y ddarpariaeth, gan gynnwys mynediad carcharorion at ddarpariaeth allgymorth, ac yn cael effaith negyddol ar ymgysylltiad dysgwyr. Roedd tarfiadau rheolaidd i'r seilwaith digidol yn effeithio ar asesiadau, gallu athrawon i gyflwyno gwersi a mynediad dysgwyr at adnoddau digidol. Roedd problemau gyda phrotocolau a systemau rhannu gwybodaeth yn llesteirio gallu arweinwyr i olrhain canlyniadau carcharorion a ryddhawyd, nad oeddent ar drwydded, ac felly, gwerthuso'n llawn effaith eu darpariaeth. Nid oedd staff yn defnyddio'r polisi ar gyfer tynnu carcharorion yn ôl o addysg yn gyson. Nid oedd presenoldeb yn cael ei olrhain na'i fonitro'n gyson ar draws y carchar. Roedd hyn yn llesteirio gallu arweinwyr i nodi tueddiadau yn y data a mynd i'r afael â nhw'n gywir a chynllunio ar gyfer gwella. Roedd yr heriau o ran rhannu gwybodaeth ar draws y gwahanol systemau a ddefnyddir ar draws y carchar, a gyda phartneriaid allanol, yn llesteirio gweithio cyd-gysylltiedig a gwerthuso ymarfer.
- 5.49 Er gwaethaf yr ystod o gyfarfodydd partneriaeth a phrosesau hunanwerthuso defnyddiol, roedd arweinwyr yn gyfyngedig o ran eu heffaith strategol oherwydd y materion gweithredol niferus yr oedd angen sylw arnynt ac nad oeddent wedi cael eu blaenoriaethu'n ddigon da. Roedd diffyg goruchwyliaeth ar rai agweddau ar y ddarpariaeth hyfforddiant a ddarparwyd gan bartïon eraill.

Adran 6 Paratoi at ryddhau

Deallir bod paratoi ar gyfer rhyddhau yn un o swyddogaethau craidd y carchar. Mae carcharorion yn cael cymorth i gynnal ac i ddatblygu perthynas â'u teulu a'u ffrindiau. Mae carcharorion yn cael cymorth i leihau'r tebygolrwydd y byddant yn aildroseddu, ac mae eu risg o niwed yn cael ei reoli'n effeithiol. Mae carcharorion yn cael eu paratoi i gael eu rhyddhau yn ôl i'r gymuned.

Plant a theuluoedd a chyswllt â'r byd tu allan

Canlyniadau disgwylidig: Mae'r carchar yn deall pwysigrwydd cysylltiadau teuluol ar gyfer ailsefydlu a lleihau'r risg o aildroseddu. Mae'r carchar yn hyrwyddo ac yn cefnogi cyswllt carcharorion gyda'u teuluoedd a'u ffrindiau. Mae'r carchar yn hwyluso rhaglenni sydd wedi'u hanelu at ddatblygu sgiliau magu plant a sgiliau cynnal perthnasoedd. Mae carcharorion nad ydynt yn cael ymweliadau yn cael eu cefnogi mewn ffyrdd eraill i sefydlu neu i gynnal cefnogaeth deuluol.

- 6.1 Roedd y ganolfan ymwelwyr a'r neuadd ymweliadau yn olau ac yn groesawgar, gyda mannau chwarae gyda digon o offer ynddynt yn cynnig amrywiaeth eang o weithgareddau i ddiddanu plant ifanc.



Y neuadd ymweliadau

- 6.2 Fodd bynnag, roedd y broses ar gyfer trefnu ymweliadau cymdeithasol wedi creu mynediad anghyfartal. Roedd carcharorion ar rai unedau

uwch neu arbenigol yn aml yn cael eu datgloi'n gynharach, gan ganiatáu iddynt ddefnyddio'r ciosg hunan-archebu cyn eraill. O ganlyniad, nid oedd llawer o'r slotiau a oedd yn weddill yn alinio ag anghenion teuluoedd carcharorion eraill, gan adael y neuadd ymweliadau yn aml yn fyr o ran capasiti. Yn anarferol, roedd carcharorion yn gyfrifol am drefnu ymweliadau cymdeithasol, yn hytrach na'u teuluoedd, a arweiniodd at ganslo nifer o ymweliadau.

- 6.3 Roedd y rhan fwyaf o'r ymweliadau cymdeithasol wedi'u cyfyngu i ddim ond un awr, sy'n rhy fyr i deuluoedd sy'n teithio'n bell. Ar ben hynny, roedd sesiynau'n aml yn methu â dechrau ar amser, gan leihau'r amser cyswllt gwerthfawr ymhellach. Er bod rheolwyr, o bryd i'w gilydd, yn ymestyn y cyfnodau ymweld i wneud iawn am hynny, nid oedd hyn yn bosibl bob tro. Gwelsom ymwelwyr yn cael eu gwrthod am gyrraedd 10 munud yn hwyr, hyd yn oed pan nad oedd y sesiwn ymweld wedi dechrau eto, a oedd yn ymddangos yn afresymol.
- 6.4 Parhaodd yr uned ymyriadau teulu i ddarparu cefnogaeth ragorol, gan gynnig amserlen eang o weithgareddau ar gyfer tadau a'u plant. Roedd ymweliadau plant, gyda chymorth Invisible Walls (sefydliad sy'n ymroddedig i gadw rhieni sydd yn y carchar mewn cysylltiad â'u teuluoedd), yn dal i fod yn eithriadol. Roedd y rhain yn cynnwys gweithgareddau diddorol ar gyfer plant o bob oed, a sesiynau pwrpasol ar gyfer babanod, gan helpu tadau i gynnal cysylltiadau ystyrlon â'u plant.
- 6.5 Roedd diwrnodau teuluol misol (gweler y Rhestr Termaw) hefyd yn rhagorol, ond cafodd mynediad ei gyfyngu'n annheg i garcharorion ar statws uwch neu'r rheini heb rybuddion ymddygiad diweddar, gan gyfyngu'n sylweddol ar y cyfle i gymryd rhan. Roedd arweinwyr yn cydnabod y mater hwn ac yn ymrwymo i fynd i'r afael ag ef ar ôl i ni ei godi gyda nhw.
- 6.6 Er bod nifer y gweithwyr teulu wedi gostwng, parhaodd y tîm bach i ddarparu cymorth o ansawdd uchel.
- 6.7 Er bod darpariaeth ddigonol ar gyfer galwadau fideo diogel (gweler y Rhestr Termaw), roedd y defnydd yn isel. Nododd y carcharorion roedden ni wedi siarad â nhw eu bod yn ffafrio rhyngweithio wyneb yn wyneb â theulu a ffrindiau, a oedd yn ddealladwy.

Lleihau aildroseddu

Canlyniadau disgwylidig: Mae carcharorion yn cael cymorth i newid ymddygiad sy'n cyfrannu at droseddu. Mae staff yn helpu carcharorion i arddangos eu cynnydd.

- 6.8 Roedd gan y sefydliad boblogaeth gymhleth o garcharorion ar remand, carcharorion heb eu dedfrydu a charcharorion wedi'u dedfrydu, gan gynnwys carcharorion sydd wedi cael eu hadalw ar drwydded, oedolion ifanc, gwladolion tramor, carcharorion sydd wedi'u cael yn euog o droseddau rhywiol a'r rheini sy'n bwrw dedfrydau amhenodol. Roedd

tua 60% o garcharorion yn treulio pedair blynedd neu fwy yn bwrw dedfryd.

- 6.9 Nid oedd strategaeth wedi'i theilwra yn nodi'r gwaith yr oedd angen ei wneud. Nid oedd data'n cael ei ddefnyddio'n effeithiol i nodi a mesur cynnydd, ac arwain at welliant ar draws yr holl lwybrau adsefydlu. Dim ond yn ystod yr arolygiad yr ailddechreuodd cyfarfodydd amlddisgyblaethol i ysgogi gwaith lleihau aildroseddu, yn dilyn bwlch o dros flwyddyn.
- 6.10 Roedd y lefelau staffio yn yr uned rheoli troseddwyd (OMU) wedi gwella ers yr arolygiad diwethaf. Fodd bynnag, roedd rhai diffygion o ran galluedd, sgiliau a phrofiad a effeithiodd ar rai o swyddogaethau craidd yr uned. Bu swydd wag hirsefydlog ar gyfer y pennaeth gwasanaethau rheoli troseddwyd, roedd diffygion staffio o ran rheolwyr troseddwyd carchar (POM) o hyd, ac roedd llawer o weinyddwyr achosion yn newydd ac yn ddibrofiad.
- 6.11 Roedd arweinwyr yn cydnabod nad oedd yr OMU yn gweithredu fel y byddent yn dymuno ac yn mynd drwy gyfnod o drawsnewid. Fodd bynnag, gyda dyfodiad uwch swyddog prawf (SPO) newydd ym mis Tachwedd 2024, roedd tri SPO bellach yn gweithio yn y carchar. Roedd y tri yn dangos ymrwymiad i'w gwaith ac roedd ganddynt gynlluniau clir i yrru gwelliannau, gan ailosod disgwyliadau a safonau'r gwaith o reoli troseddwyd.
- 6.12 Roedd carcharorion yn cael eu neilltuo'n brydlon ac yn briodol i POM ar gyrraedd. Fodd bynnag, er gwaethaf gwelliannau cyffredinol yn lefelau staffio POM, roedd llwythi achosion yn dal yn uchel, yn enwedig o ystyried cymhlethdod a risg yr achosion roeddent yn eu rheoli. O ganlyniad, roedd cyswllt parhaus â charcharorion yn aml yn afreolaidd, fel arfer yn adweithiol i dasgau â therfyn amser, ac yn annigonol o ran cynnydd y ddedfryd.
- 6.13 Roedd diffyg cyswllt effeithiol rheolaidd â POM yn dal yn ffynhonnell sylweddol o rwystredigaeth i garcharorion. Dywedasant wrthym nad oedd pobl bob amser yn ymateb i geisiadau, ac nad oedd llawer ohonynt yn gallu enwi eu POM. I rai carcharorion y buom yn siarad â nhw, ein sgwrs ni gyda nhw oedd y tro cyntaf iddynt siarad am eu targedau ers bod yn y carchar.
- 6.14 Gallai'r diffyg mewn cyswllt POM fod wedi cael ei liniaru gan gyfraniadau cyson gan weithwyr allweddol (gweler y Rhestr Termu), ond roedd y ddarpariaeth o waith allweddol yn annigonol ac nid oedd yn cefnogi cynnydd y ddedfryd o gwbl (gweler hefyd baragraff 4.3).
- 6.15 Roedd y dasg hanfodol o rannu gwybodaeth am garcharorion ar draws gwahanol adrannau a rhwng carchardai yn cael ei llesteirio gan y defnydd o systemau cofnodi ar wahân nad oedd gan bob aelod o staff fynediad atynt, a'r methiant i gofnodi'r cysylltiadau rhwng POM a charcharorion ar P-Nomis (system gwybodaeth rheoli troseddwyd genedlaethol y carchar).

- 6.16 Yn ystod y 12 mis blaenorol, roedd dros 500 o garcharorion wedi cyrraedd heb asesiad cychwynnol o'u risgiau a'u hanghenion, gan roi pwysau ar unwaith ar uned sydd eisoes yn brysur. Adeg yr arolygiad, roedd gan y rhan fwyaf o garcharorion asesiad system asesu troseddwr (OASys), ond nid oedd asesiadau ac adolygiadau bob amser yn amserol. Rydym yn disgwyl i adolygiadau ddigwydd bob blwyddyn, ond dim ond mewn ychydig dros dri chwarter yr holl achosion yn ystod y flwyddyn ddiwethaf y cyflawnwyd hyn.
- 6.17 Roedd yr asesiadau a'r adolygiadau a archwiliwyd gennym o ansawdd rhesymol ar y cyfan, ac roedd amcanion cynlluniau dedfryd yn berthnasol. Fodd bynnag, nid oedd llawer o'r carcharorion y buom yn siarad â nhw yn ymwybodol o'u cynlluniau. Yn ein harolwg, dywedodd llai o ymatebwyr nag mewn carchardai tebyg fod ganddynt gynllun (50% o gymharu â 63%). O'r rheini a oedd yn gwybod am eu hamcanion, dim ond 38% ddywedodd fod rhywun yn eu helpu i'w cyflawni.
- 6.18 Nid oedd y rhan fwyaf o'r carcharorion yn ein sampl achosion wedi gwneud digon o gynnydd tuag at eu targedau sy'n gysylltiedig â throddu, ac ni chynhaliwyd llawer o waith ymddygiad troseddol un-i-un strwythuredig i herio agweddau, ffordd o feddwl ac ymddygiad carcharorion (gweler hefyd baragraff 6.40). Fodd bynnag, roedd y cynnydd mewn meysydd eraill, fel cydymffurfio â'r drefn ac ymgysylltu ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, a darpariaeth camddefnyddio sylweddau, yn fwy cadarnhaol.
- 6.19 Roedd y carchar yn dal 131 o garcharorion a oedd yn bwrw dedfrydau amhenodol. Roedd y rhain yn cynnwys 70 yn bwrw dedfrydau amhenodol er mwyn gwarchod y cyhoedd (IPP), gyda'r rhan fwyaf ohonynt wedi cael eu hadalw i'r ddalfa ar ôl torri amodau'r drwydded.
- 6.20 Cafwyd rhai enghreifftiau o gefnogaeth dda i'r grŵp hwn. Roedd y carchar wedi ennill cais, ochr yn ochr â Phartneriaeth Gweithredu Adferol Cymru, i gyflawni prosiect dwy flynedd i helpu i wella llesiant carcharorion IPP (yn enwedig y rheini y mae trawma'n effeithio arnynt) drwy arferion adferol, cymorth un-i-un a gwaith grŵp. Ers dechrau'r prosiect, ym mis Ebrill 2024 (yn dilyn cam prawf dylunio tri mis o hyd), roedd dros 20 o'r carcharorion hyn wedi ymgysylltu â'r rhaglen.
- 6.21 Cynhaliodd y tîm seicoleg fforensig adolygiadau o ffeiliau achos y rheini o dan y prosiect IPP cenedlaethol. Fodd bynnag, nid oedd paneli cynnydd dan arweiniad rheolwyr troseddwr cymunedol (COM) yn cael eu cynnal yn gyson, a oedd yn golygu nad oedd y carcharorion hyn yn cael yr holl gymorth yr oedd ganddynt hawl iddo.
- 6.22 Yn ystod y 12 mis diwethaf, cynhaliwyd dros 360 o wrandawiadau parôl. Roedd y nifer uchel hwn wedi rhoi cryn straen ar staff yn yr OMU a'r tîm seicoleg fforensig. Fodd bynnag, gweithiodd y carchar yn galed i sicrhau bod yr holl ddogfennau angenrheidiol ar gael ar gyfer gwrandawiadau parôl, er mwyn osgoi oedi.

- 6.23 Roedd modd amddiffyn y penderfyniadau ail-gategoreiddio a archwiliwyd gennym, ac yn y rhan fwyaf o achosion cawsant eu llywio gan asesiad OASys a adolygwyd yn ddiweddar, nad ydym bob amser yn ei weld. Fodd bynnag, nid oedd carcharorion yn rhan o'r broses fel mater o drefn, a oedd yn gyfle a gollwyd i'w hannog, eu cefnogi a'u cymell.
- 6.24 Yn ystod y 12 mis blaenorol, roedd dros 250 o garcharorion wedi symud i'r ystâd agored, fel arfer o fewn mis ar ôl cael eu hail-gategoreiddio, fel arfer o fewn dwy i bedair wythnos. Ar y cyfan, roedd trosglwyddiadau carcharorion categori C at ddiben cynnydd neu ailsefydlu yn llawer arafach.
- 6.25 Effeithiwyd ar oruchwyliaeth y carchar o brosesau cyrffiw cyfyngu i'r cartref (HDC) gan ddiffygion staffio yn y tîm gweinyddu achosion, a blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd (fel y swm uchel o waith sy'n ofynnol ar gyfer y cynllun dedfryd benodol safonol 40 (SDS40; gweler y Rhestr Termau). Roedd hyn wedi arwain at rai carcharorion yn cael eu hasesu'n hwyr. Fodd bynnag, roedd goruchwyllo trefniadau yn gwella.
- 6.26 Yn y 12 mis blaenorol, roedd 144 o garcharorion yr aseswyd eu bod yn gymwys i gael HDC wedi cael eu rhyddhau y tu hwnt i'w dyddiad cymhwyso; gyda'r hiraif wedi aros 109 diwrnod oherwydd oedi o ran dilysu llety addas.

Amddiffyn y cyhoedd

Canlyniadau disgwylidig: Mae risg carcharorion o achosi niwed difrifol i eraill yn cael ei reoli'n effeithiol. Mae carcharorion yn cael eu helpu i leihau ymddygiad risg uchel o niwed.

- 6.27 Aseswyd bod bron i ddau draean o'r boblogaeth yn peri risg uchel neu uchel iawn o achosi niwed difrifol. Roedd dros hanner y carcharorion (57%) yn destun trefniadau amddiffyn y cyhoedd amlasiantaeth (MAPPA; gweler y Rhestr Termau) adeg eu rhyddhau, ac roedd tua 45% wedi'u cofrestru ar y gofrestr troseddwyd treisgar a rhywiol oherwydd natur ddifrifol eu troseddau.
- 6.28 Roedd bylchau pwysig yn y trefniadau diogelu'r cyhoedd. Nid oedd y tîm rheoli risg rhyngadrannol (IRMT) yn darparu goruchwyliaeth ddigonol, amserol a chydweithredol ar gyfer yr holl garcharorion risg uchel sydd ar fin cael eu rhyddhau. Roedd presenoldeb yn yr IRMT yn gyfyngedig, gyda POM yn anaml yn mynychu, ac nid oedd y cofnodion yn gadarn.
- 6.29 Nid oedd grŵp llywio diogelu'r cyhoedd, a gynlluniwyd i ddarparu trefniadau llywodraethu amlasiantaeth ar lefel rheolaeth uwch, wedi cyfarfod ers misoedd lawer.
- 6.30 Roedd diffygion o ran staffio a chapasiti ymysg tîm gweinyddu achosion OMU wedi arwain at oedi hir o ran gwiriadau ar gyfer newydd-ddyfodiaid. Roedd hyn yn golygu nad oedd y ffactorau risg a'r

rhybuddion bob amser yn hysbys, yn cael eu cofnodi, yn cael eu defnyddio nac yn cael eu rhannu mewn modd amserol.

- 6.31 Nid oeddem yn hyderus bod prosesau sgrinio wedi nodi'n briodol yr holl unigolion a ddylai fod wedi cael eu hystyried ar gyfer monitro cyfathrebiadau sy'n gysylltiedig â throeddu. Roedd y trefniadau goruchwyllo rhwng yr OMU a'r adran ddiogelwch yn ddigyswllt. Nid oedd y rhesymau dros fonitro rhai carcharorion bob amser yn glir. Nid oedd awdurdodiadau ac adolygiadau bob amser yn brydlon, ac nid oedd penderfyniadau bob amser yn cael eu llywio'n ddigonol gan gyfraniadau gan adrannau perthnasol, fel yr OMU.
- 6.32 Dywedodd staff yn yr OMU wrthym fod oedi weithiau o ran gwrandio ar alwadau, a bod y rheini sy'n cael eu neilltuo i wrando ar alwadau yn aml yn gorfod gweithredu rhestr aros. Fodd bynnag, ar adeg yr arolygiad nid oedd unrhyw oedi.
- 6.33 Yn fwy cadarnhaol, gwelsom dystiolaeth o rannu gwybodaeth yn effeithiol ac yn amserol rhwng POM a COM unigol, ar sail achos wrth achos, wrth i garcharorion nesáu at gael eu rhyddhau.
- 6.34 Yn gyffredinol, roedd y cynlluniau rheoli risg o ansawdd da, ond gwelsom dair enghraifft o gynlluniau nad oeddent wedi cael eu diweddarau gan y COM yn dilyn digwyddiad sylweddol (oedd yn cynnwys un carcharor a oedd wedi cael ei adalw i'r ddalfa, ac un arall a oedd wedi dychwelyd i amodau caeedig).
- 6.35 Roedd lefelau rheoli MAPPA fel arfer yn cael eu cadarnhau mewn da bryd, ond nid oeddent bob amser yn cael eu cofnodi'n glir ac yn ganolog. Roedd ansawdd y cyfraniadau i baneli MAPPA cymunedol yn ddigon manwl ac ystyrlon.

Ymyriadau a chymorth

Canlyniadau disgwylidig: Mae carcharorion yn gallu cael gafael ar gymorth ac ymyriadau sydd wedi'u dylunio i leihau aildroeddu a hyrwyddo ailsefydlu effeithiol.

- 6.36 Roedd yr ystod o raglenni a oedd yn gysylltiedig â throeddu yn briodol i ddiwallu'r rhan fwyaf o'r risg y gwyddys amdani ac anghenion y boblogaeth. Roedd y rhain yn cynnwys y Rhaglen Sgiliau Meddwl (a gynlluniwyd i helpu carcharorion i ddatblygu sgiliau gwybyddol i reoli eu risgiau), Pillars of Recovery (ar gyfer y rheini sydd ag anghenion ymddygiad troseddol sy'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau) a Building Better Relationships (ar gyfer cyflawnwyr trais partner agos).
- 6.37 Roedd ymyriadau ar gyfer carcharorion risg ganolig ac uchel gydag anableddau dysgu neu heriau dysgu, ac ar gyfer y rheini a gafwyd yn euog o droseddau treisgar cyffredinol, wedi cael eu cyflwyno ers yr arolygiad diwethaf. Fodd bynnag, roedd y bwlch mewn ymyriadau ar gyfer carcharorion a gafwyd yn euog o droseddau rhywiol yn parhau.

- 6.38 Roedd rheolwyr yn blaenoriaethu rhestrau aros yn synhwyrol, ac yn dyrannu carcharorion i raglenni yn seiliedig ar y risgiau a'r anghenion hysbys, ac agosrwydd unigolion at eu dyddiadau rhyddhau. Roedd cyfraddau cwblhau da yn erbyn y targedau a gynlluniwyd ac, ers mis Ebrill 2024, roedd 187 o garcharorion wedi cwblhau rhaglen.
- 6.39 Yn ddiweddar, roedd gwaith wedi dechrau i adolygu anghenion triniaeth y boblogaeth er mwyn paratoi ar gyfer cyflwyno Building Choices, sef ymyriad ymddygiad troseddol newydd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF (HMPPS), sydd â'r nod o helpu cyfranogwyr i ddatblygu sgiliau ar gyfer newid, a chymorth i adeiladu bywydau di-drosedd.
- 6.40 Roedd y carchar hefyd wedi darparu Timewise (rhaglen un-i-un heb ei hachredu sy'n mynd i'r afael â thrais) ac roedd 14 o garcharorion wedi cwblhau'r ymyriad hwn ers mis Ebrill 2024. Fodd bynnag, yn wahanol i'r arolygiad blaenorol, ychydig o dystiolaeth a welsom o unrhyw gynlluniau lefel is neu heb eu hachredu i garcharorion gymryd rhan mewn gwaith sy'n gysylltiedig â throseddu (gweler hefyd baragraff 6.18).
- 6.41 Gweithiodd y tîm seicoleg ffforensig yn dda i reoli rhai carcharorion sydd ag anghenion cymhleth a heriol iawn, gan gynnwys y rheini nad oeddent yn gallu, neu nad oeddent yn fodlon, cymryd rhan, a rhai sy'n bwrw dedfrydau amhenodol.
- 6.42 Gallai carcharorion gael help i agor cyfrif banc ac i wneud cais am fodd adnabod personol cydnabyddedig cyn cael eu rhyddhau. Gallai'r rheini ar remand hefyd wneud cais am dystysgrif geni. Darparodd yr Adran Gwaith a Phensiynau gymorth ar gyfer hawliadau a hawliau budd-daliadau, a darparodd Cyngor ar Bopeth gymorth i'r rheini sydd angen cyngor arbenigol ar ddyledion.
- 6.43 Cafwyd enghreifftiau o rai cynlluniau da i helpu carcharorion i wella eu rhagolygon cyflogaeth pan gânt eu rhyddhau. Roedd arweinydd cyflogaeth carchar yn arwain ar y gwaith hwn, ac roedd yn datblygu cysylltiadau ag ystod o gyflogwyr. Trefnodd ddigwyddiadau cyflogaeth rheolaidd lle gallai carcharorion gwrdd â chyflogwyr a dysgu am y cyfleoedd sydd ar gael iddynt (gweler hefyd yr adran ar addysg, sgiliau a gweithgareddau gwaith).
- 6.44 Roedd 'Parc Tank' yn fenter ragorol i'r rheini a oedd yn agosáu at gael eu rhyddhau ac a oedd â diddordeb mewn dechrau eu busnesau eu hunain. Cafodd carcharorion eu cefnogi i ddatblygu cynllun busnes a chyflwyno eu syniadau i banel, gan arwain at wobrau i fuddsoddi yn eu syniadau ar ôl cael eu rhyddhau.
- 6.45 Roedd cyngor ac arweiniad addas ar gael i garcharorion a oedd yn nesáu at gael eu rhyddhau, a oedd yn cynnwys help i ddatblygu CVs a llythyrau datgelu, a chymorth i baratoi ar gyfer cyfweiliadau.

Dychwelyd i'r gymuned

Canlyniadau disgwylidig: Mae anghenion ailintegreiddio penodol carcharorion yn cael eu diwallu drwy waith amlasiantaeth da i gynyddu'r tebygolrwydd o ailsefydlu'n llwyddiannus ar ôl rhyddhau.

- 6.46 Cafodd tua 135 o garcharorion eu rhyddhau bob mis, a oedd yn golygu bod y galw am gymorth ailsefydlu yn uchel.
- 6.47 Ers yr arolygiad diwethaf, roedd cynllunio ar gyfer rhyddhau wedi gwella'n sylweddol. Gweithiodd tîm o staff ymroddedig HMPPS, gyda llawer o adnoddau, yn galed i sicrhau bod anghenion adsefydlu'r holl newydd-ddyfodiaid (gan gynnwys y rheini sy'n cael eu remandio i'r ddalfa) yn cael eu nodi, a bod camau'n cael eu cymryd pan fo angen.
- 6.48 Roedd y tîm ailsefydlu hefyd yn cynnig cefnogaeth dda i garcharorion a ddedfrydwyd sydd i fod i gael eu rhyddhau (beth bynnag yw hyd eu dedfryd, lefel risg neu ardal rhyddhau) yn brydlon (fel arfer tua wyth mis, tri mis a mis cyn eu rhyddhau).
- 6.49 Gwelsom gyfathrebu a rhannu gwybodaeth effeithiol, a chyfarfodydd ar y cyd yn digwydd, a oedd yn cynnwys y carcharor, POM, COM a'r tîm ailsefydlu, gan arwain at ganlyniadau cadarnhaol ar y cyfan ar draws yr holl anghenion ailsefydlu. Roedd y carcharorion roedden ni wedi siarad â nhw wedi adrodd yn gadarnhaol am y gefnogaeth roedden nhw wedi'i chael.
- 6.50 Roedd staff yn yr OMU a'r tîm ailsefydlu wedi gweithio ar y cyd ac yn effeithiol ar y gwaith o reoli'r gwaith o ryddhau carcharorion yn gynnar o dan drefniadau SDS40.
- 6.51 Roedd bylchau yn y data a ddarparwyd gan y carchar am ganlyniadau llety. Nid oedd gwybodaeth am lety ar y diwrnod rhyddhau ar gael ar gyfer 11% o garcharorion a ryddhawyd rhwng mis Rhagfyr 2023 a mis Tachwedd 2024. Nid oedd wyth y cant o'r rheini a gofnodwyd wedi cael unrhyw le wedi'i gadarnhau i gysgu ar y noson gyntaf ar ôl cael eu rhyddhau, gan gynnwys 11 o garcharorion a gafodd eu rhyddhau o dan gynllun SDS40. Yn fwy cadarnhaol, roedd 45% wedi cael eu rhyddhau i lety cynaliadwy, ond roedd 46% wedi mynd i lety dros dro.
- 6.52 Roedd trefniadau rhyddhau ymarferol yn sylfaenol ond yn effeithlon. Nid oedd modd i garcharorion wefru eu ffonau symudol ac, yn siomedig, nid oedd rhai carcharorion yn gwbl ymwybodol o amodau eu trwydded tan y diwrnod y cawsant eu rhyddhau. Gallai carcharorion gael gafael ar fapiau du plaen ar gyfer cario eu heiddo, ac roedd rhywfaint o ddillad ar gael i'r rheini a allai fod ei angen.
- 6.53 Cafodd carcharorion a oedd yn ymgysylltu â Dyfodol ar gyfer problemau defnyddio sylweddau apwyntiadau yn y gymuned i helpu gyda pharhad eu gofal ar ôl iddynt gael eu rhyddhau (gweler hefyd baragraff 4.72). Fodd bynnag, roedd y cysylltiadau â gwasanaethau 'drwy'r glwyd' cymunedol eraill yn gyfyngedig.

Adran 7 Cynnydd o ran y pryderon o'r arolygiad diwethaf

Pryderon a godwyd yn yr arolygiad diwethaf

Dyma grynodeb o brif ganfyddiadau adroddiad yr arolygiad diwethaf a rhestr o'r holl bryderon a godwyd, a drefnwyd o dan y pedwar prawf ar gyfer carchar iach.

Diogelwch

Mae carcharorion, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed, yn cael eu cadw'n ddiogel.

Yn yr arolygiad diwethaf, yn 2022, gwelsom fod y canlyniadau i garcharorion yn rhesymol dda yn erbyn y prawf carchar iach hwn.

Pryderon â blaenoriaeth

Roedd lefelau'r hunan-niweidio a gofnodwyd yn rhy uchel o hyd.

Heb ei gyflawni

Pryderon allweddol

Yn gyffredinol, roedd cyfraddau trais yn rhy uchel.

Heb ei gyflawni

Roedd argaeledd cyffuriau anghyfreithlon yn dal yn fygythiad sylweddol.

Heb ei gyflawni

Roedd bylchau yn yr oruchwyliaeth strategol o feysydd pwysig, gan gynnwys diogelwch ac adsefydlu. Nid oedd data'n cael ei ddefnyddio'n effeithiol o hyd i fesur cynnydd ac i yrru gwelliant.

Heb ei gyflawni

Parch

Mae carcharorion yn cael eu trin mewn modd sy'n parchu eu hurddas.

Yn yr arolygiad diwethaf, yn 2022, gwelsom fod y canlyniadau i garcharorion yn rhesymol dda yn erbyn y prawf carchar iach hwn.

Pryderon â blaenoriaeth

Nid oedd gwasanaethau iechyd meddwl ac anabledd dysgu yn darparu gofal a thriniaeth hygyrch sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Nid oedd digon o adnoddau i wneud yn siŵr bod yr holl garcharorion a atgyfeiriwyd yn cael asesiad amserol o'u hanghenion a'u triniaeth ddilynol.

Heb ei gyflawni

Pryderon allweddol

Roedd cyfleoedd i garcharorion wneud cynnydd ar adain A a B yn fwy cyfyngedig nag ar gyfer carcharorion eraill yn y Parc. Roedd carcharorion du a lleiafrifoedd ethnig yn cael eu tangynrychioli yn yr unedau mwy blaengar.

Heb ei gyflawni

Roedd diffyg sylweddol mewn staff gofal iechyd ar draws llawer o raddau wedi creu risg i ddiogelwch cleifion.

Heb ei gyflawni

Roedd y gwaith o lywodraethu a goruchwylio'r gwaith o reoli meddyginiaethau yn wael ac yn aneffeithiol. Nid oedd systemau a gweithdrefnau yn bodloni'r safonau cadarn gofynnol ar gyfer rheoli meddyginiaethau'n ddiogel ac yn effeithiol.

Cyflawnwyd

Gweithgareddau pwrpasol

Mae carcharorion yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n debygol o fod o fudd iddynt, ac mae disgwyl iddynt wneud hynny.

Yn yr arolygiad diwethaf, yn 2022, gwelsom fod y canlyniadau i garcharorion yn dda yn erbyn y prawf carchar iach hwn.

Pryderon allweddol

Roedd y mynediad i'r llyfrgell yn wael.

Heb ei gyflawni

Cynllunio ar gyfer adsefydlu a rhyddhau

Mae carcharorion yn cael cymorth i gynnal ac i ddatblygu perthynas â'u teulu a'u ffrindiau. Mae carcharorion yn cael cymorth i leihau'r tebygolrwydd y byddant yn aildroseddu, ac mae eu risg o niwed yn cael ei reoli'n effeithiol. Mae carcharorion yn cael eu paratoi i gael eu rhyddhau yn ôl i'r gymuned.

Yn yr arolygiad diwethaf, yn 2022, gwelsom fod y canlyniadau i garcharorion yn rhesymol dda yn erbyn y prawf carchar iach hwn.

Pryderon â blaenoriaeth

Roedd prinder staff mewn rolau rheoli ac ailsefydlu troseddwyd wedi arwain at ddirywiad yn y gwaith o adsefydlu a chynllunio ar gyfer rhyddhau carcharorion.
Cyflawnwyd yn rhannol

Atodiad I Gwybodaeth am ein harolygiadau a'n hadroddiadau

Mae Arolygiaeth Carchardai EF yn sefydliad annibynnol, statudol sy'n adrodd ar driniaeth ac amodau'r rhai sy'n cael eu cadw mewn carchardai, sefydliadau troseddwy'r ifanc, canolfannau hyfforddi diogel, cyfleusterau cadw mewn fudwyr, dalfa'r llysoedd a dalfeydd milwrol.

Mae pob arolygiad a wneir gan Arolygiaeth Carchardai EF yn cyfrannu at ymateb y DU i'w rhwymedigaethau rhyngwladol o dan y Protocol Dewisol i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig yn erbyn Artaith a math arall o Driniaeth neu Gosb Greulon, Annynol neu Ddiraddiol (OPCAT). Mae OPCAT yn mynnu bod cyrff annibynnol yn ymweld yn rheolaidd â phob man sy'n cadw pobl yn gaeth. Yr enw a roddir am hyn yw Mekanwaith Atal Cenedlaethol (NPM) ac mae'n monitro'r driniaeth a'r amodau ar gyfer y rhai sy'n cael eu cadw'n gaeth. Mae Arolygiaeth Carchardai EF yn un o nifer o gyrff sy'n ffurfio'r NPM yn y DU.

Mae pob adroddiad gan Arolygiaeth Carchardai EF yn cynnwys crynodeb o sut mae carcharorion yn cael eu trin, a'r amodau ar eu cyfer, yn seiliedig ar y pedwar prawf ar gyfer carchar iach a gyflwynwyd am y tro cyntaf yn adolygiad thematig yr Arolygiaeth hon, *Suicide is everyone's concern*, a gyhoeddwyd ym 1999. Ar gyfer carchardai dynion, y profion yw:

Diogelwch

Mae carcharorion, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed, yn cael eu cadw'n ddiogel.

Parch

Mae carcharorion yn cael eu trin mewn modd sy'n parchu eu hurddas.

Gweithgareddau pwrpasol

Mae carcharorion yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n debygol o fod o fudd iddynt, ac mae disgwyl iddynt wneud hynny.

Paratoi at ryddhau

Deallir bod paratoi ar gyfer rhyddhau yn un o swyddogaethau craidd y carchar. Mae carcharorion yn cael eu cefnogi i gynnal ac i ddatblygu perthynas â'u teulu a'u ffrindiau. Mae carcharorion yn cael cymorth i leihau eu tebygolrwydd o aildroseddu ac mae eu risg o achosi niwed yn cael ei reoli'n effeithiol. Mae carcharorion yn cael eu paratoi ar gyfer eu rhyddhau yn ôl i'r gymuned.

O dan bob prawf, rydym yn asesu canlyniadau ar gyfer carcharorion ac felly perfformiad cyffredinol y sefydliad yn erbyn y prawf. Mae pedwar dyfarniad posib: mewn rhai achosion, bydd materion y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol y sefydliad yn effeithio ar y perfformiad hwn, ac mae angen i Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi (HMPPS) roi sylw iddynt.

Mae'r canlyniadau i garcharorion yn dda.

Does dim tystiolaeth yr effeithir yn andwyol ar ganlyniadau

carcharorion mewn unrhyw feysydd arwyddocaol.

Mae'r canlyniadau i garcharorion yn rhesymol dda.

Mae tystiolaeth o ganlyniadau andwyol i garcharorion mewn dim ond nifer fechan o feysydd. I'r mwyafrif, nid oes unrhyw bryderon. Mae gweithdrefnau ar waith i ddiogelu canlyniadau.

Nid yw'r canlyniadau i garcharorion yn ddigon da.

Mae tystiolaeth yr effeithir yn andwyol ar ganlyniadau carcharorion mewn sawl maes, neu yn enwedig yn y meysydd hynny sydd bwysicaf i les carcharorion. Mae problemau / pryderon, os na roddir sylw iddynt, yn debygol o ddod yn destun pryder difrifol.

Mae'r canlyniadau i garcharorion yn wael.

Mae tystiolaeth yr effeithir yn ddifrifol ar ganlyniadau carcharorion gan arferion cyfredol. Mae methiant i hyd yn oed sicrhau triniaeth ddigonol a / neu amodau derbyniol i garcharorion. Mae angen cymryd camau cyweirio ar unwaith.

Gallai ein hasesiadau arwain at nodi **meysydd sy'n peri pryder**. Mae prif bryderon yn nodi'r meysydd lle mae gwendidau sylweddol yn y ffordd y mae carcharorion yn cael eu trin a'r amodau ar eu cyfer. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, bydd angen newid ymarfer a/neu adnoddau newydd neu adnoddau wedi'u hailgyfeirio. Pryderon â blaenoriaeth yw'r rhai y mae'r arolygwyr yn credu sy'n fwyaf brys a phwysig ac y dylid rhoi sylw iddynt ar unwaith. Caiff y prif bryderon a'r pryderon â blaenoriaeth eu crynhoi ar ddechrau adroddiadau arolygu ac mae corff yr adroddiad yn cyflwyno'r materion yn fwy manwl.

Rydym hefyd yn darparu enghreifftiau o **arferion cadarnhaol nodedig** yn ein hadroddiadau. Mae'r rhain yn rhestru arferion neu waith arloesol sy'n arwain at ganlyniadau arbennig o dda y gallai sefydliadau eraill ddysgu oddi wrthynt. Mae'r Arolygwyr yn chwilio am dystiolaeth o ganlyniadau da i garcharorion; dulliau gwreiddiol, creadigol neu arbennig o effeithiol o ddatrys problemau neu gyflawni'r nod a ddymunir; a sut y gallai sefydliadau eraill ddysgu oddi wrth yr arfer neu ei ddyblygu.

Defnyddir pum ffynhonnell dystiolaeth allweddol gan arolygwyr: arsylwi; arolygon carcharorion a staff; trafodaethau â charcharorion; trafodaethau â staff a thrydydd partïon perthnasol; a dogfennau. Yn ystod yr arolygiadau, rydym yn defnyddio dull cymysg o gasglu a dadansoddi data, gan ddefnyddio methodolegau ansoddol a meintiol. Mae tystiolaeth o wahanol ffynonellau wedi'i thriongli i gryfhau dilysrwydd ein hasesiadau.

Ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol, mae ein holl arolygiadau'n ddirybudd ac maent yn cynnwys gwaith dilynol mewn perthynas â phryderon o'r arolygiad blaenorol.

Cynhelir arolygiadau o garchardai yng Nghymru ar y cyd ag Estyn ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Mae'r gwaith ar y cyd hwn yn sicrhau bod gwybodaeth arbenigol yn cael ei defnyddio mewn arolygiadau ac yn osgoi sawl ymweliad arolygu.

Yr adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r pryderon â blaenoriaeth a'r prif bryderon yn dilyn yr arolygiad, a'n dyfarniadau am y pedwar prawf carchar iach. Yna, ceir pedair adran, pob un yn cynnwys adroddiad manwl ar ein canfyddiadau yn erbyn ein *Disgwyliadau. Criteria for assessing the treatment of and conditions for men in prisons* (Version 6, 2023) (ar gael ar ein gwefan yn [Expectations – HM Inspectorate of Prisons \(justiceinspectorates.gov.uk\)](https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmip/)). Mae Adran 7 yn rhestru'r pryderon a godwyd yn yr arolygiad blaenorol a'n hasesiad ynghylch a roddwyd sylw iddynt ai peidio.

Mae canfyddiadau'r arolwg o garcharorion a disgrifiad manwl o fethodoleg yr arolwg ar gael ar ein gwefan (gweler Rhagor o adnoddau). Sylwch mai dim ond os yw'r rhain yn ystadegol arwyddocaol y byddwn yn cyfeirio at gymariaethau â sefydliadau tebyg eraill neu arolygiadau blaenorol. Mae'r lefel arwyddocâd wedi'i gosod ar 0.01, sy'n golygu mai dim ond siawns o 1% sydd mai hap a damwain sy'n gyfrifol am y gwahaniaeth yn y canlyniadau.

Y Tîm Arolygu

Cynhaliwyd yr arolygiad hwn gan:

Charlie Taylor	Prif Arolygydd
Sara Pennington	Arweinydd Tîm
Natalie Heeks	Arolygydd
Donna Ward	Arolygydd
Esra Sari	Arolygydd
Jade Richards	Arolygydd
Harriet Leaver	Arolygydd
Joe Simmonds	Ymchwilydd
Tareek Deacon	Ymchwilydd
Samantha Rasor	Ymchwilydd
Jasmin Clarke	Ymchwilydd
Tania Osborne	Arolygydd iechyd a gofal cymdeithasol arweiniol
Lynn Glassup	Arolygydd iechyd a gofal cymdeithasol
Sarah Campbell	Arolygydd iechyd a gofal cymdeithasol
Richard Chapman	Arolygydd gyda'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol
Mamta Arnott	Arolygydd Estyn
Steve Bell	Arolygydd Estyn
Rachel Hackling	Arolygydd Estyn
Richard Murray	Arolygydd Estyn
Jennifer Weeks	Arolygydd Estyn
Mark Cull	Arolygydd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Dr Ali Jahanfar	Arolygiaeth Iechyd Cymru – Deintydd
Martyn Griffiths	Arolygydd rheoli troseddwyd

Atodiad II Rhestr Termau

Rydym yn ceisio gwneud ein hadroddiadau mor glir â phosib, a dylai'r rhestr fer hon helpu i egluro rhai o'r termau arbenigol y gallech ddod ar eu traws.

Llety arferol ardystiedig (CNA) a chapasiti gweithredol

CNA sylfaenol yw cyfanswm yr holl le byw ardystiedig mewn sefydliad, ac eithrio celloedd mewn unedau arwahanu, celloedd gofal iechyd neu ystafelloedd nad ydynt yn cael eu defnyddio fel arfer ar gyfer cleifion arhosiad hir. CNA sy'n cael eu defnyddio yw'r CNA sylfaenol heb gynnwys y llefydd hynny nad ydynt ar gael i'w defnyddio'n syth, fel celloedd sydd wedi'u difrodi, celloedd y mae gwaith adeiladu yn effeithio arnynt, a chelloedd nad ydynt yn cael eu defnyddio oherwydd prinder staff. Capasiti gweithredol yw cyfanswm y carcharorion y gall sefydliad eu dal heb beri risg difrifol i drefn dda, i ddiogelwch ac i redeg y sefydliad yn briodol.

Cynllun herio, cefnogi ac ymyrryd (CSIP)

Caiff ei ddefnyddio gan bob carchar i oedolion i reoli'r carcharorion hynny sy'n dreisgar neu sy'n peri risg uwch o fod yn dreisgar. Rheolir a chefnogir y carcharorion hyn gyda chynllun sydd â thargedau unigol ac adolygiadau rheolaidd. Nid yw achos pawb sy'n dreisgar yn cael ei reoli gan CSIP. Mae rhai carchardai hefyd yn defnyddio'r fframwaith CSIP i gefnogi'r rheini sydd wedi dioddef trais.

Diwrnodau teulu

Mae llawer o garchardai yn trefnu 'diwrnodau teulu' drwy gydol y flwyddyn, yn ogystal ag ymweliadau arferol. Mae'r rhain fel arfer yn agored i bob carcharor sydd â phlant bach, wyrion, neu berthnasau ifanc eraill.

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Rheoleiddiwr ac arolygiaeth annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru. Mae'n arolygu gwasanaethau'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yn erbyn ystod o safonau, polisiau, canllawiau a rheoliadau i dynnu sylw at feysydd sydd angen eu gwella.

Cynllun gweithiwr allweddol

Mae'r cynllun gweithiwr allweddol yn gweithredu ar draws yr ystâd gaeedig i ddynion ac mae'n un elfen o'r model Rheoli Troseddwy yn y Ddalfa (OMiC). Mae gan bob swyddog carchar lwyth achosion o tua chwe charcharor. Y nod yw galluogi staff i ddatblygu perthynas adeiladol, ysgogol â charcharorion, sy'n gallu eu cefnogi a'u hannog i weithio tuag at nodau adsefydlu cadarnhaol.

Arweinydd

Yn yr adroddiad hwn, mae'r term 'arweinydd' yn cyfeirio at unrhyw un sydd â chyfrifoldeb arwain neu reoli yn y system garchardai. Byddwn yn cyfeirio ein naratif at lefel yr arweinyddiaeth sydd â'r capasiti mwyaf i ddylanwadu ar ganlyniad penodol.

MAPPA

Trefniadau amlasiantaethol ar gyfer diogelu'r cyhoedd: y set o drefniadau y mae'r heddlu, y gwasanaeth prawf a'r gwasanaeth carchardai yn eu defnyddio i weithio gydag asiantaethau eraill i reoli'r risgiau a berir gan droseddwyr treisgar, rhywiol a therfysgol sy'n byw yn y gymuned, er mwyn diogelu'r cyhoedd.

Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa (OMiC)

Mae'r model Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa (OMiC), sydd wedi cael ei gyflwyno ar draws yr ystâd carchardai oedolion cyfan, yn golygu bod swyddogion carchar yn cynnal sesiynau gwaith allweddol gyda charcharorion (a roddwyd ar waith yn ystod 2018-2019) ac yn rheoli achosion, a sefydlodd rôl rheolwr troseddwyr y carchar (POM) o 1 Hydref 2019 ymlaen. Ar 31 Mawrth 2021, cafodd model OMiC penodol ar gyfer carchardai agored i ddynion, nad yw'n cynnwys gwaith allweddol, ei gyflwyno.

PAVA

Mae chwistrell PAVA (pelargonic acid vanillylamide) yn arf gwaharddedig o dan adran 5(1) (b) Deddf Drylliau Tanio 1988.

Nodweddion gwarchodedig

Seiliau camwahaniaethu anghyfreithlon (Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2010).

Amddiffyn oedolion sydd mewn perygl

Mae dyletswyddau diogelu yn berthnasol i oedolyn:

- sydd ag anghenion gofal a chymorth (p'un a yw'r awdurdod lleol yn diwallu unrhyw un o'r anghenion hynny ai peidio); ac
- sydd yn cael, neu mewn perygl o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso; ac
- o ganlyniad i'r anghenion gofal a chymorth hynny, nid yw'n gallu amddiffyn ei hun rhag naill ai'r risg o gam-drin ac esgeuluso, neu'r profiad o hynny (Deddf Gofal 2014).

Dedfryd benodol safonol 40 (SDS40)

Cynllun sydd â'r bwriad o fynd i'r afael â gorlenwi lle mae carcharorion sy'n bwrw dedfryd benodol safonol ond yn treulio 40% o'u dedfryd yn y carchar, yn hytrach na 50%, ac mae eu hamser ar brawf yn y gymuned yn cael ei ymestyn. Mae cyfyngiadau ar waith ar gyfer categorïau penodol o droseddau. Mae SDS40 yn disodli ECSL a dechreuwyd rhyddhau carcharorion ym mis Medi 2024.

Galwadau fideo diogel

System a gomisiynwyd gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf EF (HMPPS) sy'n mynnu bod defnyddwyr yn lawrlwytho ap i'w ffôn neu eu cyfrifiadur. Cyn bod modd trefnu galwad, rhaid i ddefnyddwyr lwytho ID dilys.

Ymddiriedolaeth Shannon

Elusen genedlaethol sy'n darparu adnoddau a hyfforddiant darllen wedi'u cynllunio gan gymheiriaid i garchardai.

Pecyn gofal cymdeithasol

Lefel o ofal personol i fynd i'r afael ag anghenion a nodwyd yn dilyn asesiad o anghenion cymdeithasol a wnaed gan yr awdurdod lleol (hynny yw, cymorth gydag ymolchi, mynd i'r bath/cawod, mynd i'r toiled, gweithgareddau byw bob dydd ayb, ond nid gofal meddygol).

Amser allan o'r gell

Mae amser allan o'r gell, yn ogystal â 'gweithgareddau pwrpasol' ffurfiol, yn cynnwys unrhyw adeg pan fydd carcharorion allan o'u celloedd er mwyn cymdeithasu neu ddefnyddio cyfleusterau cymunedol, i gael cawod neu wneud galwadau ffôn.

Atodiad III Rhagor o adnoddau

Mae rhai adnoddau eraill y dylid eu darllen ochr yn ochr â'r adroddiad hwn yn cael eu cyhoeddi ar wefan Arolygiaeth Carchardai EF (maent hefyd yn ymddangos yn yr adroddiadau wedi'u hargraffu a ddosberthir i'r carchar). Dyma'r adnoddau a ddefnyddiwyd ar gyfer yr adroddiad hwn:

Proffil poblogaeth carchardai

Gofynnwn am broffil poblogaeth o bob carchar fel rhan o'r wybodaeth a gasglwn yn ystod ein harolygiad. Rydym wedi cyhoeddi'r dadansoddiad hwn ar ein gwefan.

Methodoleg a chanlyniadau'r arolwg o garcharorion

Cynhelir arolwg cynrychioliadol o'r carcharorion ar ddechrau pob arolygiad, ac mae'r canlyniadau'n cyfrannu at y sylfaen dystiolaeth ar gyfer yr arolygiad. Mae dogfen sy'n cynnwys gwybodaeth am y fethodoleg, yr arolwg a'r dogfennau cymharu sydd yn dangos canlyniadau'r arolwg, yn cael ei chyhoeddi ochr yn ochr â'r adroddiad ar ein gwefan.

Arolwg staff carchardai

Gwahoddir staff y carchar i lenwi arolwg staff. Cyhoeddir y canlyniadau ochr yn ochr â'r adroddiad ar ein gwefan.

Hawlfraint y Goron 2025

Mae'r cyhoeddiad hwn, ac eithrio logos, wedi'i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodwyd fel arall. I weld y drwydded hon ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu anfonwch lythyr at Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu neges e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint berthnasol i'w defnyddio.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn y cyfeiriad isod neu: hmiprison.enquiries@hmiprison.gsi.gov.uk.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lawrlwytho yn: [Our reports – HM Inspectorate of Prisons \(justiceinspectorates.gov.uk\)](https://justiceinspectorates.gov.uk)

Argraffwyd a chyhoeddwyd gan:

HM Inspectorate of Prisons

3rd floor

10 South Colonnade

Canary Wharf

London

E14 4PU

England

Mae pob llun yn destun hawlfraint Arolygiaeth Carchardai EF oni nodir yn wahanol.